



Eich pensiwn: mae'n bryd dewis

- ➔ Meddwl am gael mynediad at eich cronfa pensiwn
- ➔ Penderfynu sut i gymryd eich incwm ymddeol
- ➔ Edrych o gwmpas am yr incwm gorau



Gweithio mewn
cydweithrediad â:



Get to know your options

Backed by HM Government

Mae'r **Gwasanaeth Cyngori Ariannol** yn wasanaeth annibynnol, a gafodd ei sefydlu gan y llywodraeth i roi cymorth i bobl wneud y gorau o'u harian gan roi cyngor diduedd yn rhad ac am ddim. Yn ogystal â chyngor am bensiynau ac ymddeol, rydyn ni'n cynnig gwybodaeth am amrediad eang o destunau eraill yn ymwneud ag arian.

Ewch i'n gwefan heddiw am gyngor, awgrymiadau ac offer i roi cymorth i chi wneud penderfyniadau deallus a chynllunio ar gyfer dyfodol gwell.

 moneyadviceservice.org.uk

Cyngor diduedd am ddim

-  ar y we
-  ar y ffôn

Pension Wise

Cyngor diduedd a rhad ac am ddim – gyda chefnogaeth y llywodraeth

Mae Pension Wise yn wasanaeth diduedd a rhad ac am ddim a gefnogir gan y llywodraeth, sy'n rhoi cymorth i chi ddeall y dewisiadau ar gyfer defnyddio'ch cronfa bensiwn a sut maent yn gweithio.
pensionwise.gov.uk

Yma i'ch helpu chi

Mae'r canllaw hwn yn addas i chi os ydych yn bwriadu cymryd o gronfa bensiwn wedi'i chronni o gyfraniadau i mewn i bensiwn personol neu bensiwn gweithle

Mae'n sefydlu eich dewisiadau ar gyfer defnyddio eich cronfa (neu gronfeydd) i ddarparu incwm ymddeol a'r buddion ac unrhyw risgiau posibl o'r gwahanol ddewisiadau.

Mae'n trafod y gweithrediadau allweddol hefyd y bydd angen i chi eu cymryd wrth i chi nesáu at yr adeg pan fyddwch eisiau mynediad at eich cronfa bensiwn (p'un a ydych yn ymddeol neu beidio), a sut i gael mynediad at arweiniad rhad ac am ddim gan Pension Wise – gwasanaeth diduedd a gefnogir gan y llywodraeth a fydd o gymorth i chi bwyso a mesur eich opsiynau ar gyfer cymryd eich pensiwn.

Nid yw'r canllaw hwn yn cynnwys cynlluniau pensiwn ble mae'r pensiwn y byddwch chi'n ei dderbyn yn cael ei gyfrifo fel cyfran o'ch cyflog. Gelwir y rhain yn bensiynau budd diffiniedig neu gynlluniau 'cyflog terfynol' neu 'gyfartaledd gyrfa' hefyd. Siaradwch â gweinyddwr eich cynllun pensiwn neu'ch cyflogwr i gael gwybod mwy.



Cynnwys

Cychwyn arni – eich opsiynau ymddeol	3
Rhestr Wirio	4
Pension Wise	6
Opsiynau ar gyfer defnyddio'ch cronfa bensiwn	8
Cadw eich cynilion pensiwn ble y maent	10
Defnyddio eich cronfa bensiwn i ddarparu incwm gwarantedig am oes neu am gyfnod penodol	12
Defnyddio eich cronfa bensiwn i ddarparu incwm ymddeoliad hyblyg	18
Cymryd eich cronfa bensiwn fel nifer o gyfandaliadau	21
cymryd eich cronfa bensiwn mewn un taliad	24
Cyfuno eich opsiynau	26
Cipolwg ar yr opsiynau	29
Chwilio am y fargen orau a chael cyngor	30
Sut i adnabod twyll pensiwn	33
Esbonio'r Jargon	35
Sut mae eich incwm pensiwn yn cael ei drethu	40
Cysylltiadau defnyddiol	44

Cychwyn arni – eich opsiynau ymddeol

Bydd y newidiadau a gyflwynwyd o fis Ebrill 2015 yn rhoi rhyddid i chi ynglŷn â sut allwch chi gael mynediad at eich cynilion pensiwn os ydych yn 55 oed neu'n hŷn a bod gennych chi bensiwn yn seiliedig ar faint a dalwyd i mewn i'ch cronfa (fel pensiwn cyfraniad wedi'i ddiffinio, prynu arian, neu gynllun balans arian parod).

Gyda chymaint ohonom yn byw'n hirach, nid yw ymddeoliad yn gyfnod mor dyngedfennol ag yr oedd ar un cyfnod. Pa un ai'ch bod yn bwriadu ymddeol yn gyfan gwbl, cwtogi'ch oriau'n raddol neu barhau i weithio am gyfnod hirach, gallwch yn awr deilwra pa bryd a sut i ddefnyddio'ch cynilion pensiwn – a pha bryd y byddwch yn rhoi'r gorau i gynilo ynddo – yn unol â'ch taith ymddeoliad.

Fodd bynnag, gyda mwy o ryddid daw mwy o gyfrifoldeb – i sicrhau bod gennych chi ddigon o arian i fyw arno drwy gydol eich ymddeoliad, ac y gallwch ddarparu ar gyfer eich dibynnyddion wedi i chi farw.

Gyda nifer o bobl yn byw am 30 mlynedd neu fwy ar ôl ymddeol, mae deall y dewisiadau sydd gennych ar gyfer cael gafael ar yr arian yn eich cronfa bensiwn – a chynllunio'n ofalus yn seiliedig ar eich amgylchiadau ariannol a phersonol – yn hanfodol er mwyn gwneud y mwyaf o'r hyblygrwydd newydd ac osgoi gwneud camgymeriadau costus, wynebu biliau treth drud a rhedeg allan o arian.

Bydd angen i chi edrych ar faint o arian sydd gennych chi ar hyn o bryd, unrhyw fenthyciadau neu ddyledion, a faint o incwm fyddwch chi ei angen i chi fedru byw yn ôl eich dymuniad yn eich ymddeoliad, yn cynnwys ysgwyddo unrhyw gostau annisgwyl wrth i chi fynd yn hŷn, megis costau gofal hirdymor.

Bydd angen i chi ystyried hefyd sut fydd eich dewisiadau'n effeithio ar eich treth a'ch gallu i hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth – yn awr ac yn y dyfodol. Er enghraifft, gall eich dewis o incwm ymddeoliad effeithio ar sut y bydd eich awdurdod lleol yn asesu faint allwch chi ei fforddio ei dalu ar gyfer eich gofal hirdymor os byddwch ei angen a gall effeithio hefyd ar y dewis o ofal fydd ar gael i chi.

Bydd eich iechyd a'ch disgwyliad bywyd – ac felly hefyd eich partner neu ddibynnydd – yn effeithio ar ba ddewisiadau fydd orau ar eich cyfer chi.

Mae'r canllaw hwn yn egluro pam fod y ffactorau hyn yn bwysig a rhoi cymorth i chi eu hystyried. Bydd hefyd yn helpu eich paratoi ar gyfer apwyntiad Pension Wise am ddim – sydd ar gael o 50 oed ac a esbonnir ar dudalen 6.

Peidiwch â chael eich temtio i wneud penderfyniad brysog – treuliwch amser yn deall eich opsiynau ac yna ceisiwch gymorth.

Cofiwch, bydd yr hyn a benderfynwch yn awr yn effeithio ar eich incwm pensiwn am weddill eich oes.

Rhestr wirio

Beth i'w wneud cyn cael mynediad at eich cronfa bensiwn

Mae'r rhestr wirio yn berthnasol os ydych yn ymddeol yn llawn, ymddeol yn rhannol neu ddim ond yn meddwl am gymryd rhywfaint o'ch cronfa bensiwn yn gynnar (yn yr achos hwn darllenwch 'eich dyddiad ymddeol' fel 'y dyddiad y bwriadwch ddefnyddio'ch cronfa bensiwn').

Pedwar i chwe mis cyn eich dyddiad ymddeoliad*

Pa un ai'ch bod yn ystyried ymddeol yn llwyr, yn raddol neu hyd yn oed os ydych yn ei ohirio, mae'n bwysig gwirio gwaith papur eich pensiwn.

Yn neilltuoel, dylech fod yn ymwybodol o unrhyw reolau, cyfyngiadau, gwarantau, neu gostau a allai effeithio ar eich gallu i fedru cymryd eich pensiwn neu eich dewisiadau wrth benderfynu sut i ddefnyddio'ch cronfa bensiwn.

Os bydd gennych chi fwy nag un cronfa bensiwn dyma'r amser i ddod o hyd i bob un. Gall fod yn beth doeth eu cyfuno er mwyn cael gwell bargaen pan ddaw'r adeg i benderfynu pa gynnyrch incwm ymddeoliad a ddymunwch. Neu efallai y byddwch yn gweld fod gan rai warantau na fyddwch yn eu cael mewn llefydd eraill, a'i bod yn well eu gadael ble y maent. Naill ffordd neu'r llall, dylech fynd ar eu trywydd a gweld beth mae pob un yn gallu ei gynnig i chi.


Sut i olrhain pensiwn coll

*Os ydych mewn pensiwn gweithle pennir eich dyddiad ymddeol fel arfer gan reolau'r cynllun. Os oes gennych chi bensiwn personol, y dyddiad pan sefydlwyd eich pensiwn fydd yn bwysig.

Os ydych wedi colli golwg o unrhyw hen bensiynau, gall y Gwasanaeth Orlhain Pensiwn fod o gymorth i chi ddod o hyd i gyfeiriad eich hen ddarparwr pensiwn ar-lein, dros y ffôn neu trwy ysgrifennu atynt. Dysgwch fwy ar gov.uk/find-pension-contact-details. Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 44.

Dyma beth sydd angen i chi ei wneud yn awr:

- ✓ Darllenwch y canllaw hwn.
- ✓ Gwiriwch eich dyddiad ymddeol a maint eich cronfa neu gronfeydd pensiwn – wedi eu nodi ar eich cyfriflenni pensiwn.
- ✓ Darllenwch yr holl wybodaeth a anfonwyd atoch gan eich cynllun neu ddarparwr pensiwn – yn cynnwys yr opsiynau a gynigir ganddo i chi fedru cymryd eich pensiwn. Gofynnwch iddo esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.



- ✓ Gwiriwch ddyddiadau allweddol – os dymunwch chi newid eich dyddiad ymddeol, gofynnwch i'ch cynllun neu ddarparwr pensiwn a yw hyn yn bosib a gofyn pa ffioedd sy'n ddyledus ac a oes yna unrhyw derfynau amser ynghlwm â'i hysbysu.
- ✓ Gwiriwch os yw eich cynllun pensiwn yn gwarantu talu lefel benodol o incwm – a elwir yn gyfradd blwydd-dal gwarantedig neu'n warant incwm isafswm. Os bydd, mae hyn yn debygol o warantu incwm ymddeol cystadleuol iawn a fydd yn talu nes byddwch yn marw a dylech ystyried yn ofalus cyn ildio hyn. Dyma rywbeth y bydd angen i chi ei drafod yn eich apwyntiad Pension Wise neu gyda chynghorydd ariannol.
- ✓ Gwiriwch a oes yna unrhyw amodau eraill, nodweddion arbennig, gwarantau neu ffioedd a allai effeithio ar ba bryd a sut y gallwch gymryd eich pensiwn neu a fydd yn weithredol os symudwch eich pensiwn i gynllun neu ddarparwr arall.
- ✓ Ewch i offeryn dewisiadau incwm ymddeol y Gwasanaeth Cynghori Ariannol moneyadvice.service.org.uk/retirement-income-options i gael dealltwriaeth lefel uchel o'ch dewisiadau ar gyfer defnyddio eich cronfa bensiwn.
- ✓ Os yw'ch cynllun pensiwn yn cynnig opsiynau i chi nad ydynt wedi eu cynnwys yn y canllaw hwn (fel incwm yn daladwy'n uniongyrchol o'ch cynllun) yna efallai y dylech drafod y rhain gyda'ch cynghorydd ariannol.

Gwybodaeth arall y dylech gychwyn eu casglu at ei gilydd

Bydd angen i chi ddarganfod faint o Bensiwn y Wladwriaeth y disgwyliwch ei gael – ewch i gov.uk/state-pension-statement. Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 44.

Bydd angen i chi hefyd gasglu gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw bensiwn yn seiliedig ar eich cyflog sy'n ddyledus i chi, crynodeb o unrhyw incwm neu fudd-daliadau'r wladwriaeth eraill a gewch ac unrhyw gynilion, benthyciadau neu ddyledion sydd gennych chi.

Cael arweiniad neu gyngor ariannol

Cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol, trefnwch apwyntiad Pension Wise i'ch helpu i ddeall eich opsiynau, ac yn ddelfrydol dilynwch hyn trwy siarad gyda chynghorydd ariannol wedi'i reoleiddio a fydd yn gallu argymhell pa opsiwn sydd orau i chi yn seiliedig ar eich anghenion ac amgylchiadau.

I ddysgu rhagor am Pension Wise ewch i dudalen 6. Gallwch drefnu apwyntiad pan gyrhaeddwch 50 oed, beth bynnag yw eich dyddiad ymddeol bwriededig.

Gweler tudalen 30 i gael gwybod am gael cyngor ariannol, yn cynnwys manteision treth sydd ar gael i'ch helpu i dalu amdano.

Byddwch yn wylidwrs o dwyll

Wrth i chi nesáu at eich ymddeoliad, byddwch yn wylidwrs o gwmnïau sy'n honni eu bod wedi eu cymeradwyo gan y llywodraeth neu sy'n ceisio'ch perswadio i gymryd arian allan o'ch pensiwn yn gynnar. Dysgwch sut i adnabod ac adrodd ar dwyll pensiwn ar dudalen 33.

Pension Wise

Mae Pension Wise yn wasanaeth diduedd a rhad ac am ddim a gefnogir gan y llywodraeth, sy'n rhoi cymorth i chi ddeall y dewisiadau ar gyfer defnyddio'ch cronfa.

Mae'n cynnig apwyntiadau arweiniad am ddim dros y ffôn ac/neu wyneb yn wyneb i roi cymorth i chi ddeall eich opsiynau a'ch cefnogi i wneud y penderfyniad cywir. Gallwch drefnu apwyntiad pan gyrhaeddwch 50 oed, beth bynnag yw eich dyddiad ymddeol bwriededig.

Mae hefyd yn darparu gwybodaeth ar y wefan Pension Wise ar **pensionwise.gov.uk** am eich opsiynau ar gyfer cymryd eich cronfa bensiwn, yn cynnwys deall y goblygiadau treth ar gyfer y gwahanol opsiynau.

Mae Pension Wise yn darparu arweiniad ar bensiynau cyfraniadau diffiniedig. Nid yw'n darparu arweiniad ar bensiynau buddion wedi'u diffinio, sy'n cynnwys cynlluniau pensiwn 'cyflog terfynol' a 'chyfartaledd gyrfaf'.

Gall Pension Wise eich helpu chi:

- ddeall y pethau cywir i'w hystyried wrth feddwl am eich dewisiadau, fel eich cynlluniau i barhau i weithio, eich amgylchiadau personol ac ariannol, a gadael arian wedi i chi farw
- deall y gwahanol opsiynau ar gyfer cael mynediad at eich cronfa neu gronfeydd pensiwn, a'r manteision a'r anafanteision posib ynghlwm â phob un
- deall goblygiadau treth pob dewis.

Awgrym Da

- ➔ Waeth pa mor fach yw'ch cronfa bensiwn, fe'ch anogwn i fanteisio ar Pension Wise i roi cymorth i chi ddeall beth yw eich dewisiadau.

Mae'r gwasanaeth yn ddiduedd ac ni fydd yn argymhell cwmnïau nac yn dweud wrthydd chi sut i ddefnyddio'ch cronfa bensiwn na sut i fuddsoddi'ch arian.

Wedi i chi gael arweiniad, os ydych chi'n glir ynghylch pa opsiwn ydych chi'n ddewis a bod hyn yn cynnwys cynnyrch incwm ymddeol, chwiliwch i gael y fargen orau i sicrhau'ch bod yn cael y cynnyrch gwerth gorau i chi. Os nad ydych yn siŵr sut i wneud hyn, neu os ydych chi'n dal yn ansicr ynghylch pa ddewis sydd orau i chi, rydym yn argymhell eich bod yn cymryd cyngor ariannol wedi ei reoleiddio.

Gweler *Chwilio am y fargen orau a chael cyngor* ar dudalen 30.

Sut i gael eich canllaw Pension Wise am ddim

Argymhellwn eich bod yn mynd i wefan Pension Wise yn **pensionwise.gov.uk** i weld beth sydd ar gael gan y gwasanaeth er mwyn i chi fedru cychwyn deall yr opsiynau sydd ar gael i chi.

I drefnu apwyntiad dros y ffôn neu wyneb yn wyneb ewch i wefan Pension Wise neu ffoniwch **0800 138 3944**.

Sut i baratoi ar gyfer eich apwyntiad

I wneud y mwyaf o apwyntiad Pension Wise byddai'n ddefnyddiol cael:

- gwerth eich cronfa neu gronfeydd pensiwn ac a oes yna warantau neu nodweddion arbennig sy'n berthnasol i'ch cronfa – gwiriwch gyfriflen eich cronfa neu gofynnwch i'ch cynllun neu ddarparwr. Os oes gennych chi fwy nag un gronfa bensiwn cofiwch gasglu gwybodaeth ar y cyfan ohonynt – gweler tudalen 4 i gael gwybod sut i gysylltu â'r Gwasanaeth Orlhain Pensiwn a all roi cymorth i chi ddod o hyd i hen ddarparwr pensiwn os ydych wedi colli golwg ar bensiwn.
- amcangyfrif o faint o Bensiwn y Wladwriaeth allwch chi gael a phryd – i gael datganiad Pensiwn y Wladwriaeth ewch i **gov.uk/check-state-pension** Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 44.
- nodiadau ar eich amgylchiadau ariannol cyn eich apwyntiad, fel eich cyflog ac unrhyw gynilion perthnasol neu ddyledion a gwerth unrhyw fudd-daliadau'r wladwriaeth a gewch ar hyn o bryd – i roi darlun mwy cyflawn i Pension Wise er mwyn trafod eich opsiynau.

Gofynnir i chi hefyd am unrhyw gyflyrau meddygol neu iechyd a allai effeithio ar eich disgwyliad oes ac a allai olygu y cewch well incwm yn eich ymddeoliad.

Ar ôl eich apwyntiad

Unwaith y bydd Pension Wise wedi trafod yr opsiynau sydd ar gael i chi, i'ch helpu i wneud penderfyniad rydym yn argymhell eich bod yn siarad gyda chynghorydd ariannol wedi'i reoleiddio. Os ydych chi'n prynu cynnyrch a fydd yn rhoi incwm ymddeol, mae'n allweddol eich bod yn chwilio o gwmpas a gall cynghorydd ariannol eich helpu i wneud hyn.

Mae cynghorwyr ariannol yn codi ffi, ond mae eu harbenigedd yn cynnig tawelwch meddwl a gall helpu atal camgymeriadau drud. Hefyd, gyda chynghor ariannol wedi ei reoleiddio, mae gennych sicrwydd os bydd cynnyrch a argymhellir i chi yn anaddas yn y pen draw.

I gael gwybod am fanteision treth y gallwch ddefnyddio i helpu talu am gyngor ariannol wedi ei reoleiddio, gweler tudalen 32.

I gael gwybod mwy am chwilio o gwmpas a chael cyngor, gweler tudalen 30.

Os ydych yn hollol hyderus am ba opsiwn a chynnyrch sy'n addas ar eich cyfer chi, gallech fynd yn uniongyrchol at ddarparwr cynnyrch, ond sicrhewch eich bod yn chwilio'n drylwyr am y dewis gorau yn gyntaf. Peidiwch â derbyn y cynnyrch cyntaf a gynnigir gan i chi gan eich darparwr presennol.

Gwefan Pension Wise
pensionwise.gov.uk

Opsiynau ar gyfer defnyddio'ch cronfa bensiwn

Mae gennych chi ddewis o gael mynediad at eich cronfa bensiwn trwy un o'r dewisiadau isod, neu gyfuniad ohonynt. Yn ddibynol ar eich oed ac amgylchiadau ariannol, gallai rhai neu'r cyfan o'r opsiynau hyn fod yn addas i chi.

Eich prif ddewisiadau yw:

Cadw eich cynilion pensiwn ble y maent – a'u cymryd yn ddiweddarach. Gweler tudalen 10.

Defnyddio eich cronfa bensiwn i gael incwm gwarantedig am oes neu am gyfnod penodol – a elwir hefyd yn flwydd-dal oes neu gyfnod penodol. Mae'r incwm yn drethadwy, ond gallwch ddewis cymryd hyd at 25% (weithiau mwy gyda rhai polisiau) o'ch cronfa bensiwn fel cyfandaliad di-dreth o'r cychwyn cyntaf. Gweler tudalen 12.

Defnyddio eich cronfa bensiwn i ddarparu incwm ymddeoliad hyblyg – a elwir hefyd yn dynnu arian i lawr. Cymryd y swm a ganiateir i chi ei gymryd fel cyfandaliad di-dreth (fel arfer hyd at 25%) ac yna defnyddio'r gweddill i ddarparu incwm trethadwy rheolaidd. Gweler tudalen 18.

Cymryd nifer o gyfandaliadau – Fel arfer bydd y 25% cyntaf o bob swm a dynnwch allan o'ch cronfa'n ddi-dreth. Codir treth ar y gweddill. Gweler tudalen 21.

Cymryd eich cronfa bensiwn gyfan ar unwaith – Fel arfer bydd y 25% cyntaf yn ddi-dreth a'r gweddill yn drethadwy. Gweler tudalen 24.

Cymysgu eich opsiynau – dewis unrhyw gyfuniad o'r uchod, gan ddefnyddio gwahanol rannau o'r gronfa neu gronfeydd gwahanol ar wahân. Gweler tudalen 26.

Pwyntiau allweddol

- ➔ Nid yw pob cynllun a phob darparwr pensiynau yn cynnig yr holl opsiynau ac efallai nid yw'r cyfan yn caniatáu mynediad yn 55 oed.
- ➔ Efallai y bydd angen i chi drosglwyddo i gynllun neu ddarparwr arall er mwyn medru hawlio'ch hoff ddewis.
- ➔ Hyd yn oed os bydd eich cynllun neu ddarparwr yn cynnig dewis, cofiwch chwilio am y fargen orau – gweler tudalen 30.

Ceisiwch arweiniad am ddim a chael cyngor ariannol

Gyda rhyddid i ddewis daw cyfrifoldeb. Mae yna lawer i'w bwyso a'i fesur wrth benderfynu pa ddewis neu gyfuniad fydd yn cynnig incwm dibynadwy ac effeithlon o ran treth i chi a'ch dibynyddion trwy gydol eich ymddeoliad.

Am y rheswm hwn argymhellwn yn gryf i chi geisio arweiniad yn rhad ac am ddim gan Pension Wise ac wedyn siarad â chynghorydd ariannol wedi'i reoleiddio cyn gwneud penderfyniad terfynol. Gweler tudalennau 6 ac 31 am ragor o fanylder.

Gall eich dewisiadau effeithio ar eich gallu i hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth – yn awr ac yn y dyfodol. Dysgwch ragor am effaith eich incwm pensiwn neu gynilion ar eich hawl i gael budd-daliadau'r wladwriaeth yn **GOV.UK**.



Rhaid eich bod wedi cyrraedd yr isafswm oed pensiwn arferol i gael mynediad at eich cronfa bensiwn – ar hyn o bryd yn 55 oed. Dim ond dan amgylchiadau prin iawn (megis afiechyd) fyddwch chi'n gallu cael mynediad at eich cronfa bensiwn cyn i chi fod yn 55 oed. Gwiriwch gyda'ch darparwr pensiwn.

Cadwch eich cynilion ble y maent

Efallai y byddwch yn gallu gohirio cael mynediad at eich cronfa bensiwn tu hwnt i'r oed ymddeol a gytunoch gyda'ch darparwr pensiwn neu oedran ymddeol eich cynllun. Nid yw cyrraedd 55 oed yn ddyddiad cau i wneud penderfyniad. Os ydych yn ymatal rhag ei gymryd yn gynnar neu hyd yn oed yn gohirio ei gymryd, bydd yn rhoi mwy o amser i'ch cronfa bensiwn dyfu.

Sut mae'n gweithio

Bydd eich cronfa bensiwn barhau i dyfu'n ddi-dreth hyd nes y bydd ei hangen arnoch – gan roi mwy o incwm i chi o bosib unwaith y dechreuwch gymryd arian allan ohoni.

Gallwch chi (a'ch cyflogwr) barhau i wneud cyfraniadau, fodd bynnag mae yna rai cyfyngiadau o hyd at faint allwch chi gynilo bob blwyddyn a dros oes a dal i dderbyn gostyngiadau treth.

Gan amlaf gallwch gael gostyngiad treth bob blwyddyn ar gyfraniadau pensiwn, yn cynnwys unrhyw gyfraniadau gan gyflogwr, ar y 100% isaf o'ch enillion trethadwy neu hyd at £40,000 (2018-19 blwyddyn dreth) tan eich bod yn 75 oed. Fodd bynnag, os ydych chi'n ennill arian mawr mae'r terfyn ar faint o arian di-dreth allwch chi ei gronni yn eich pensiwn mewn unrhyw flwyddyn yn ddibynnol ar eich 'incwm wedi ei addasu'. I ddysgu rhagor, gweler *Lwfans Blyneddol* ar dudalen 35, *Lwfans Blyneddol wedi ei Dapro* ar dudalen 39.

Os nad ydych yn talu Treth Incwm, gallwch gael gostyngiad treth ar gyfraniadau pensiwn o hyd, ar hyd at £3,600 o gynilion pensiwn bob blwyddyn hyd nes i chi gyrraedd 75 oed.

Pethau i'w hystyried

Os nad ydych chi angen yr arian yn eich cronfa bensiwn ac nad ydych chi wedi gwneud cynlluniau pendant ar gyfer ymddeoliad, yna dylid ystyried yr opsiwn i 'wneud dim' yn ofalus. Po fwyaf fyddwch chi'n oedi, yr uchaf fydd eich incwm ymddeol posibl, gan y gallai'r arian rydych wedi ei gynilo yn eich pensiwn barhau i dyfu.

Fodd bynnag, gall arian sydd wedi ei fuddsoddi hefyd ostwng mewn gwerth, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn adolygu eich cynilion yn rheolaidd ac, os oes angen, cael cyngor gan gynghorydd ariannol wedi'i reoleiddio. Bydd yn rhaid i chi dalu am y cyngor, ond gallai arbed dipyn o arian (a gofid) i chi yn yr hirdymor.

Fe fydd yna gostau parhaus er mwyn cadw eich cronfa bensiwn ble y mae – ond mae costau yn gysylltiedig â phob dewis, felly peidiwch â gadael i hyn eich digalonni. Dylai eich darparwr gadarnhau'r holl gostau fyddwch chi'n talu os byddwch yn gadael eich cronfa bensiwn wedi ei buddsoddi gyda nhw.

Yn olaf, cofiwch wirio gyda'ch cynllun neu ddarparwr pensiwn a oes unrhyw gyfyngiadau neu ffioedd am newid eich dyddiad ymddeol, a'r drefn a'r amserlen ar gyfer ei hysbysu. Gwiriwch hefyd na fyddwch yn colli unrhyw warantau incwm gwerthfawr os gohiriwch ddyddiad eich ymddeoliad.

Y Lwfans Oes (y mwyaf y gallwch chi a'ch cyflogwr ei gronni mewn pensiwn ar eich cyfer yn ystod eich oes tra'n dal i gael rhyddhad treth) yw £1,030,000 ar gyfer 2018-19. Os bydd hyn yn debygol o effeithio arnoch chi, argymhellwn i chi geisio cyngor ariannol. Gweler tudalen 37 am ragor o fanylion.

Os dymunwch i'ch cronfa barhau wedi'i buddsoddi ar ôl i chi gyrraedd 75 oed, bydd angen i chi wirio gyda'ch cynllun pensiwn neu'ch darparwr i weld a fyddant yn caniatáu hynny. Os na, efallai y bydd angen i chi drosglwyddo i gynllun neu ddarparwr a fydd yn caniatáu hynny.

Nid yw pob cynllun a phob darparwr pensiwnau yn caniatáu i chi ohirio. Os ydych chi eisiau gohirio ond nad yw'r dewis yma ar gael i chi, chwiliwch o gwmpas ac yn ddelfrydol, cael cyngor ariannol cyn symud eich pensiwn. Gweler tudalen 30 i weld sut i wneud hyn.

Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn marw

Pan fyddwch chi'n marw, bydd unrhyw gronfeydd pensiwn heb eu defnyddio'n cael eu heithrio o'ch ystâd er dibenion Treth Etifeddiant fel arfer, a gellir ei basio ymlaen at unrhyw fuddiolwr enwebedig. Sefydli'r rheolau Treth Incwm ar gyfer mynediad i gronfeydd pensiwn a etifeddir ar y dde. Yn y ddau achos, mae'r arian yn parhau i dyfu yn ddi-dreth tra'i fod yn dal wedi ei fuddsoddi.

Os byddwch yn marw cyn eich bod yn 75 oed:

- bydd eich cronfa bensiwn yn trosglwyddo yn ddi-dreth i'ch buddiolwr a enwebwyd, cyn belled ag y telir yr arian cyn pen dwy flynedd ers i'r darparwr gael gwybod am eich marwolaeth. Os yw'n cael ei dalu wedi'r terfyn dwy flynedd, ychwanegir yr arian at incwm arall y buddiolwr a'i drethu ar y gyfradd briodol.

Os byddwch yn marw ar ôl 75 oed neu hyn:

- pan fydd yr arian yn cael ei gymryd (cyfandaliad neu incwm) bydd yn cael ei ychwanegu at incwm y buddiolwr ac yn cael ei drethu ar ei gyfradd (neu gyfraddau) Treth Incwm priodol
- fodd bynnag, os nad yw'r buddiolwr yn unigolyn ond er enghraifft, yn gwmni neu ymddiriedolaeth, fe drethir unrhyw gyfandaliad ar 45%.

Taliadau Lwfans Oes:

Os yw cyfanswm gwerth eich holl gynilion pensiwn pan fyddwch yn marw yn fwy na'r Lwfans Oes (£1,030,000 ar gyfer blwyddyn dreth 2018-19), bydd taliadau treth pellach yn daladwy gan y buddiolwr. I gael gwybod mwy am y Lwfans Oes, gweler tudalen 37.

Nid oes brys i gychwyn cymryd eich pensiwn os nad ydych ei angen ond gwiriwch a oes yna unrhyw gyfyngiadau neu a gollwch chi'ch budd-daliadau wrth ei gymryd yn ddiweddarach.

Defnyddiwch eich cronfa bensiwn i gael incwm a warantir am oes neu am gyfnod penodol

Mae cynnyrch incwm gwarantedig yn fwy cyfarwydd fel blwydd-daliadau. Gallwch ddewis prynu un a fydd yn parhau cyn hired ag y byddwch yn byw (blwydd-dal oes) neu am gyfnod penodol (blwydd-dal cyfnod penodol).

Sut mae'n gweithio

Gallwch fel arfer ddewis cymryd hyd at 25% (chwarter) o'ch cronfa bensiwn fel un cyfandaliad di-dreth a defnyddio'r cyfan neu rywfaint i brynu incwm gwarantedig. Gall yr incwm fod yn warantedig am eich oes gyfan neu am gyfnod penodol. Gallwch brynu gan eich darparwr eich hun (os yw'n eu gwerthu) neu ddarparwr arall. Rhaid i chi brynu cyn pen chwe mis ers cymryd eich cyfandaliad di-dreth.

Fel arfer, po hynaf ydych chi pan brynwch gynnyrch incwm gwarantedig (blwydd-dal), po uchaf fydd yr incwm a gewch.

Gallwch ddewis derbyn eich incwm yn fisol, chwarterol, bob chwe mis neu bob blwyddyn, yn ddibynnol ar y cynllun neu'r darparwr. Mae'r math yma o incwm yn drethadwy. Gweler *Treth fyddwch chi'n ei thalu* ar dudalen 16.

Opsiynau incwm oes

Mae cynnyrch incwm oes gwarantedig yn fwy cyfarwydd fel blwydd-daliadau oes. Mae sawl un i ddewis ohonynt:

Sengl neu ar y cyd: gallwch ddewis incwm ar eich cyfer chi yn unig sy'n stopio pan fyddwch yn marw (sengl), neu un sydd hefyd yn darparu incwm ar gyfer eich cymar, partner sifil neu fuddiolwr enwebedig arall wedi i chi farw (ar y cyd). Bydd incwm ar y cyd fel arfer yn is gan ei fod wedi ei gynllunio i dalu am gyfnod hirach.

Lefel neu Gynyddol: gallwch ddewis incwm sydd wedi ei osod ar yr un swm trwy gydol oes (lefel) neu un sy'n cychwyn yn is ond yn cynyddu gydag amser o swm penodol neu chwyddiant (cynyddol).

Cyfnod Gwarant: math o amddiffyniad sy'n gwarantu y bydd eich incwm yn parhau am gyfnod penodol hyd yn oed os byddwch chi'n marw yn ystod y cyfnod hwnnw. Er enghraifft, os byddwch yn dewis cyfnod gwarant o 10 mlynedd ac yn marw wedi dwy flynedd, bydd taliadau yn parhau i fuddiolwr enwebedig am wyth mlynedd.

Sicrwydd Gwerth: math arall o amddiffyn, ond mae sicrwydd gwerth yn sicrhau y dychwelir cyfandaliad i'ch buddiolwr (neu fuddiolwyr) os byddwch chi'n marw cyn i chi dderbyn y swm llawn a ddefnyddiwyd i dalu eich blwydd-dal, fel incwm, yn ôl. Felly os taloch chi £50,000 a derbyn dim ond £30,000 yn ôl mewn incwm erbyn i chi farw, byddai £20,000 yn cael ei dalu i'ch buddiolwr (neu fuddiolwyr). Fel arfer byddwch yn dewis naill ai gyfnod gwarant neu sicrwydd gwerth.

Efallai y byddwch yn gallu cyfuno'r dewisiadau hyn. Mae eich dewis yn effeithio ar faint o incwm allwch chi ei gael.

Gall ymhle y disgwyliwch fyw wedi i chi ymddeol effeithio ar faint o incwm a gewch o bosib.

Byddwch yn onest – a chael incwm uwch

Os ydych chi'n ysmygu, ar feddyginiaeth neu os oes gennych chi gyflwr meddygol, efallai y byddwch yn gymwys i gael incwm gwarantedig 'uwch' (a elwir hefyd yn flwydd-dal 'uwch', 'amharus' neu 'ffordd o fyw'). Mae'r rhain yn dueddol o dalu incwm uwch oherwydd eu bod yn disgwyl talu allan dros gyfnod byrrach o amser. Felly gwnewch y siŵr eich bod yn optio i mewn i'r cwestiynau iechyd a ffordd o fyw ac yn eu hateb yn onest. Fel arall, efallai y byddwch yn troi'ch cefn ar incwm sylweddol uwch, mewn rhai achosion hyd at 50%.

Opsiynau incwm gwarantedig tymor penodol

Yn hytrach nag optio am incwm gwarantedig wedi ei dalu am oes, gallwch ddewis gael ei dalu am gyfnod penodol rhwng 3 a 30 mlynedd (a elwir hefyd yn **flwydd-dal cyfnod penodol**).

Gallwch naill ai bennu faint o incwm ydych chi eisiau ac am ba hyd a chael dyfynbris ar gyfer y gost – neu gallwch bennu faint ydych chi eisiau ei dalu ac am ba hyd ydych chi eisiau'r incwm a chael dyfynbris ar gyfer y swm o incwm fydd hynny yn ei brynu i chi. Dim ond ychydig o ddarparwyr cynnyrch incwm gwarantedig cyfnod penodol sydd ar gael, felly mae'n werth gwirio gyda phob un gan fod ganddynt gyfraddau gwahanol. Gallwch gael dyfynbrisiau ar gyfer cynnyrch oes gwarantedig a chynnyrch incwm gwarantedig cyfnod penodol trwy ddefnyddio ein tablau cymharu

 comparison.moneyadviceservice.org.uk/en/tools/annuities

Gyda chynnyrch incwm gwarantedig cyfnod penodol, gallwch hefyd ddewis cael swm arian parod wedi ei ddychwelyd ar ddiwedd y cyfnod. Gelwir hyn yn 'werth aeddfedu'. Gallwch naill ai bennu faint ydych chi ei eisiau yn ôl, neu bydd y darparwr (neu ddarparwyr) yn cyfrifo hyn i chi yn ddibynnol ar faint o'ch cronfa bensiwn ydych chi'n ei defnyddio ac/neu faint o incwm ydych chi eisiau.

Mae rhai darparwyr yn gadael i chi ddewis incwm cyfnod penodol i sicrhau os byddwch yn marw yn ystod y cyfnod, mae'r incwm hwnnw yn dal i gael ei dalu i'ch buddiolwr enwebedig tan ddiwedd y tymor.

Fel arfer mae darparwyr yn cynnwys rhyw fath o amddiffyniad i sicrhau y byddwch yn cael rhywbeth wedi ei ddychwelyd i'ch buddiolwyr os byddwch yn marw yn ystod y cyfnod penodol – fodd bynnag, mae hyn yn amrywio rhwng darparwyr. Bydd rhai yn dal i dalu'r incwm hyd at ddiwedd y cyfnod penodol ac yn gwarantu talu unrhyw werth aeddfedu a geisir. Mae eraill yn talu balans yr incwm sydd heb ei dalu yn ôl yn unig. Cyn i chi ddewis pa ddarparwr i ddefnyddio ar gyfer eich cynnyrch incwm cyfnod penodol, gwiriwch lefel yr amddiffyniad maent yn gynnig.

Gall mwy o nodweddion neu lefel uwch o amddiffyniad arwain at gost uwch neu leihau'r incwm y gallwch gael. Rydym yn argymhell eich bod yn rhoi nifer o ddyfynbrisiau trwy ein tablau cymharu i weld beth allech chi ei gael gyda gwahanol ddarparwyr.

Cynnyrch incwm cysylltiedig â buddsoddiad

Mae'r cynnyrch yma hefyd yn cael eu galw yn flwydd-daliadau cysylltiedig â buddsoddiad a gellir eu hystyried os ydych chi'n barod i gymryd mwy o risg. Gyda'r cynnyrch yma mae'ch incwm yn codi a gostwng yn unol â gwerth y buddsoddiadau a ddewiswch pan brynwch y cynnyrch. Gallwch ddal i ddewis cynnyrch incwm sy'n talu am gyfnod penodol neu am oes ond naill ffordd neu'r llall nid yw'r incwm a gewch wedi ei warantu.

Gyda'r math yma o gynnyrch gallech dderbyn mwy neu lai dros y tymor hirach na gyda chynnyrch incwm gwarantedig – mae'n ddibynol ar sut mae'r cronfeydd buddsoddi sylfaenol yn perfformio.

Mae rhai cynnyrch cysylltiedig â buddsoddi yn gwarantu isafswm o incwm os yw perfformiad y gronfa yn wan.

Mae'r rhan fwyaf o'r opsiynau sydd ar gael gyda chynnyrch incwm gwarantedig ar gael gyda chynnyrch incwm cysylltiedig â buddsoddiad, megis incwm ar y cyd a delir i'ch partner os byddwch yn marw, neu gyfnod gwarant neu sicrwydd gwerth.

Gellir cael incwm uwch a delir oherwydd iechyd neu ffordd o fyw hefyd gyda chynnyrch incwm cysylltiedig i fuddsoddiad.

Mae rhai cynnyrch yn gadael i chi newid eich opsiynau buddsoddi neu gymryd taliadau is yn hwyrach.

Pethau i'w hystyried

Mae cynnyrch incwm gwarantedig (blwydd-daliadau) yn darparu incwm rheolaidd am oes am gyfnod penodol, felly maent yn opsiwn da os ydych chi eisiau tawelwch meddwl neu os ydych chi'n poeni am eich arian yn darfod.

Fodd bynnag, wedi i chi brynu cynnyrch incwm gwarantedig, ychydig iawn o amser fydd gennych chi i newid eich meddwl, felly meddyliwch yn ofalus cyn ymrwymo.

Os ydych yn ansicr ynglŷn ag ymroi i gynnyrch incwm oes gwarantedig nawr, gallech ddewis opsiwn arall i ddechrau neu fynd am gynnyrch incwm cyfnod penodol a phrynu incwm oes yn ddiweddarach pan fyddwch yn fwy tebygol o gael incwm uwch yn sgil eich oed.

Os yw eich disgwyliad oes yn isel, efallai na fydd cynnyrch incwm oes gwarantedig y dewis gorau ar eich cyfer chi.

Roedd rhai polisiau pensiwn hŷn yn cynnig cyfradd incwm gwarantedig pan fyddwch yn ymddeol (a elwir yn gyfradd incwm gwarantedig neu GAR). Os bydd eich polisi pensiwn yn cynnwys y dewis hwn, mae'n fudd gwerthfawr ac fe allai fod yn anodd curo hynny ar y farchnad agored, – ond cofiwch chwilio am fargen well serch hynny. Gweler tudalen 30.

Os oes gennych chi gyfradd blwydd-dal gwarantedig, dylai eich darparwr ddweud wrthydd am dano a'i werth yn gymharol i'r farchnad agored, yn yr wybodaeth mae'n anfon atoch.

Ystyriwch a ddylech gymryd cynnyrch sy'n darparu incwm cynyddol. Gall chwyddiant (neu'r cynnydd cyffredinol ym mhris nwyddau a gwasanaethau gydag amser) leihau eich safon byw gydag amser.

A hefyd meddyliwch yn ofalus oes angen i chi ddarparu incwm ar gyfer eich partner neu ddibynnydd arall ar eich marwolaeth.

Mae cynnyrch incwm cysylltiedig â buddsoddiadau (blwydd-daliadau sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau) a rhai hyblyg yn cynnig cyfle am incwm uwch yn y dyfodol – ond dim ond trwy gymryd risg ychwanegol. Gallai'ch incwm leihau os nad yw'r gronfa'n perfformio cystal â'r disgwyl. Os ystyriwch yr opsiwn hwn edrychwch beth all eich darparwr ei gynnig a cheisio ac yna ceisiwch gyngor ariannol. Gweler tudalen 30.

Os prynwch incwm gwarantedig gydag arian o gronfa bensiwn a ddefnyddiwyd eisoes gennych ar gyfer opsiwn incwm arall (e.e. i ddarparu incwm ymddeol hyblyg – gweler tudalen 18), ni allwch gymryd cyfandaliad di-dreth arall – hyd yn oed os na ddewisoch i gymryd cyfandaliad di-dreth gyda'r opsiwn arall.

Nid yw pob cynllun a phob darparwr pensiynau yn cynnig cynnyrch incwm gwarantedig neu gyfnod penodol. Efallai y bydd rhai yn cynnig un math yn unig, neu'n cynnig prynu un ar eich rhan.

Os yw'ch darparwr yn cynnig dyfynbris i chi am incwm gwarantedig oes, yna rhaid iddynt hefyd roi dyfynbris arall i chi o'r farchnad agored i gymharu.

Fodd bynnag, ni fydd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn rhoi dyfynbris i chi sy'n ystyried unrhyw faterion iechyd neu ffordd o fyw sydd gennych chi – felly gwnewch yn siŵr eich bod yn chwilio am y fargen orau cyn dewis – mae'n debygol y cewch well incwm na chadw at eich darparwr presennol.

Rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn cael cyngor ariannol wedi ei reoleiddio cyn gwneud penderfyniad terfynol – fel yna byddwch wedi'ch diogelu os aiff pethau o chwith. Gweler tudalen 30 am ragor ar chwilio o gwmpas a chael cyngor.

Pwyntiau allweddol

- ➔ Nid yw'n ofynnol i chi brynu cynnyrch incwm gwarantedig eich darparwr presennol – bydd nifer o bobl yn cael gwell incwm ymddeoliad gan ddarparwr gwahanol.
- ➔ Cymerwch eich amser a chwiliwch am y fargen orau.
- ➔ Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio a allech chi gael gwell incwm oherwydd eich iechyd neu ffordd o fyw – a elwir yn 'flwydd-dal gwell'.
- ➔ Gofynnwch a yw'ch darparwr yn cynnig 'cyfradd flwydd-dal a warantir' – os felly, gall hyn gynnig incwm uchel iawn a dylech chi fanteisio arno.

Treth a dalwch

Bydd yn rhaid i chi dalu treth ar yr incwm a dderbyniwch, yn yr un modd ag y byddwch yn talu treth ar eich cyflog. Bydd faint a dalwch yn dibynnu ar gyfanswm eich incwm a'r gyfradd o Dreth Incwm sy'n berthnasol i chi.

Gweler tudalennau 40 a 42 i gael enghreifftiau o sut mae incwm pensiwn yn cael ei drethu. Sylwer bod yna wahanol gyfraddau a bandiau treth yn yr Alban i weddill y Deyrnas Unedig. Rydym wedi darparu tablau ar wahân ar gyfer yr Alban a Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Bydd eich darparwr yn tynnu treth o'ch incwm cyn i chi ei dderbyn - gelwir hyn yn TWE (Talu wrth Ennill). Gan na fyddant yn gwybod faint yw eich incwm cyffredinol, byddant yn defnyddio cod treth brys i ddechrau. Golyga hyn y gallech dalu gormod o dreth yn gychwynnol a gorfod hawlio'r arian yn ôl - neu efallai na fyddwch wedi talu digon o dreth os bydd gennych chi ffynonellau eraill o incwm.

Os yw cyfanswm gwerth eich holl gynilion pensiwn yn uwch na £1,030,000 (blwyddyn dreth 2018-19), a heb eu hasesu eisoes yn erbyn y Lwfans Oes, gallai taliadau treth pellach fod yn daladwy pan ddefnyddiwyd yr arian yn eich cronfa pensiwn. Gweler *Lwfans Oes* ar dudalen 37.

Gostyngiad treth ar gynilion pensiwn

Ar ôl i chi brynu cynnyrch incwm gwarantedig, fel arfer gallwch barhau i gael rhyddhad treth ar gynilion pensiwn hyd at y Lwfans blynyddol o £40,000 (2018-19). Gweler *Lwfans Blynyddol* ar dudalen 35.

Fodd bynnag, os prynwch flwydd-dal oes ble gallai'r incwm a dderbyniwch fynd i lawr, fel blwydd-daliadau sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau, bydd y gostyngiad treth uchaf allwch chi ei gael ar gynilion pensiwn cyfraniad wedi'i ddiffinio i'r dyfodol yn lleihau i £4,000 (gelwir hyn yn lwfans blynyddol prynu arian) neu 100% o'ch enillion. Os ydych am barhau i gynilo i mewn i pensiwn yna efallai na fydd yr opsiwn hwn yn addas.

Gweler *Lwfans Blynyddol Prynu Arian* ar dudalen 38.

Budd-daliadau'r wladwriaeth

Gallai'r incwm a gynhyrchir gan eich cynnyrch incwm gwarantedig effeithio ar eich hawl i gael budd-daliadau yn awr neu yn ddiweddarach. I ddysgu sut all incwm neu gynilion effeithio ar fudd-daliadau'r wladwriaeth ewch i **GOV.UK**.

Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn marw

Os oes gennych chi gynnyrch incwm gwarantedig oes sengl a dim nodweddion eraill, bydd eich pensiwn yn dod i ben pan fyddwch chi'n marw. Fel arall, mae'r rheolau treth yn amrywio ar eich oed yn unol â'r hyn a ddangosir isod.

Os byddwch yn marw cyn eich bod yn 75 oed:

- Telir incwm o **gynnyrch incwm gwarantedig** ar y cyd i'ch dibynnydd neu unrhyw fuddiolwr arall a enwebwyd yn ddi-dreth am weddill ei fywyd.
- Os byddwch chi'n marw o fewn **cyfnod gwarant** (gweler tudalen 12) trosglwyddir gweddill y taliadau blwydd-dal yn ddi-dreth i'ch buddiolwr a enwebwyd ac yna'n dod i ben pan fydd y cyfnod gwarantu'n dod i ben.
- Telir unrhyw gyfandaliad yn ddyledus o **gynnyrch incwm oes gwarantedig sicrwydd gwerth** (gweler tudalen 12) yn ddi-dreth. Bydd hefyd yn cael ei eithrio o'ch ystâd er dibenion Treth Etifeddiant fel arfer.

Os byddwch yn marw ar ôl 75 oed neu hyn:

- Bydd incwm o **gynnyrch incwm gwarantedig** neu **gyfnod gwarant sy'n parhau** yn cael ei ychwanegu i incwm cyffredinol y buddiolwr a'i drethu ar y gyfradd Treth Incwm briodol. Gweler tudalennau 41 a 42 i gael enghreifftiau o sut mae incwm pensiwn yn cael ei drethu.
- Bydd taliadau ar y cyd yn dod i ben pan fydd eich dibynnydd neu fuddiolwr arall yn marw **a bydd unrhyw daliadau cyfnod gwarant** yn dod i ben pan fydd y cyfnod gwarant yn gorffen.
- Bydd unrhyw gyfandaliad yn ddyledus o **gynnyrch incwm gwarantedig gwerth a ddiogelir** yn cael ei ychwanegu i incwm cyffredinol y buddiolwr a'i drethu ar y gyfradd Treth Incwm briodol.
- Bydd cyfandaliadau sy'n ddyledus o **gynnyrch incwm gwarant gwerth a ddiogelir** hefyd yn cael ei eithrio o'ch ystâd er dibenion Treth Etifeddiant fel arfer.

Peidiwch ag edrych ar y dyfynbrisiau mae'ch darparwr eich hun yn darparu yn unig. Chwiliwch i weld a allwch gael gwell bargaen gyda darparwr arall. Mae llawer yn gwneud hyn. Rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn cael cyngor ariannol cyn gwneud penderfyniad terfynol.

I ddysgu rhagor am y gwahanol fathau a nodweddion cynnyrch incwm gwarantedig, yn cynnwys enghreifftiau o sut mae gwahanol ddewisiadau'n effeithio ar eich incwm, gweler ein canllawiau ac offer ar-lein yn **moneyadvice.service.org.uk/retirement**.

Dod o hyd i gynghorwr ariannol

Defnyddiwch Gyfeiriadur Cynghorwyr ar Ymddeoliad y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn **moneyadvice.service.org.uk/directory** i ddod o hyd i'r cynghorydd iawn i chi.

Mae pob un o'r cynghorwyr a restrir yn cynnig cyngor ariannol wedi ei reoleiddio yn benodol ar gyfer eich anghenion a gallant ddewis cynnyrch gan ystod eang o ddarparwyr. Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn cynnal y cyfeirlyfr gan ddefnyddio gwybodaeth yn uniongyrchol gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) er mwyn i chi gael tawelwch meddwl eich bod bob amser yn delio â chwmni awdurdodedig a rheoledig.

Defnyddiwch eich cronfa bensiwn i ddarparu incwm ymddeoliad hyblyg

Gallwch symud y cyfan neu rywfaifnt o'ch cronfa bensiwn i gynnyrch incwm ymddeol a elwir yn 'tynnu arian i lawr yn hyblyg' neu 'tynnu incwm i lawr'. Fel arfer nid yw'r incwm wedi ei warantu ond mae gennych hyblygrwydd o ran faint allwch chi dynnu i lawr a pha mor aml.

Sut mae'n gweithio

Fel arfer gallwch ddewis cymryd hyd at 25% (chwarter) o'ch cronfa bensiwn fel un cyfandaliad di-dreth. Yna mae'n rhaid i chi symud y gweddill i gynnyrch tynnu arian i lawr yn hyblyg o fewn chwe mis, neu bydd perygl o orfod talu tâl treth. Mae'n bwysig iawn eich bod yn chwilio am y cynnyrch gorau i chi – hyd yn oed os ydych chi ddim ond eisiau cymryd eich arian yn ddi-dreth am y tro. Gweler pam isod.

Mae cynnyrch tynnu arian i lawr yn hyblyg yn cynnig cronfeydd buddsoddi sydd wedi eu cynllunio i ddarparu incwm. Rydych yn dewis cronfeydd i fuddsoddi ynddynt sy'n gweddu â'ch amcanion incwm a'ch agwedd at risg a gosod yr incwm a ddymunwch, er gall hwn gael ei addasu'n

achlysurol yn ddibynol ar berfformiad eich buddsoddiadau.

Gallwch ddewis cymryd eich incwm ar adeg sy'n gweddu i chi – e.e. yn fisol, chwarterol, blyneddol neu gallech gymryd arian allan ar gyfnodau ysbeidiol. Bydd nifer o bobl yn ei ddefnyddio i gymryd incwm rheolaidd. Gallwch ddechrau cymryd yr incwm ar unwaith neu aros tan ddyddiad hwyrach.

Mae'r incwm yn drethadwy. Gweler Treth fyddwch chi'n ei thalu ar dudalen 20.

I helpu darparu mwy o sicrwydd, gallwch ddefnyddio'r cyfan neu ran o'ch arian ar unrhyw adeg yn eich cynnyrch tynnu arian i lawr yn hyblyg i brynu incwm gwarantedig naill ai am oes (blwydd-dal oes), neu am gyfnod penodol (blwydd-dal cyfnod

penodol) neu brynu math arall o gynnyrch incwm ymddeol. Bydd yr hyn sydd ar gael ar y farchnad yn amrywio o un adeg i'r llall felly bydd angen i chi drafod eich opsiynau gyda chynghorydd ariannol.

Pethau i'w hystyried

Yn wahanol i incwm gwarantedig am oes (blwydd-dal oes), nid yw'r incwm ymddeol a dderbyniwch o gynnyrch incwm ymddeol hyblyg fel arfer wedi ei warantu i barhau mor hir ag y byddwch yn byw, felly ystyriwch yn ofalus faint ydych chi'n ei dynnu allan.

Bydd angen cynllunio'n ofalus wrth benderfynu faint o incwm allwch chi ei fforddio – mae'n dibynnu ar faint o arian fyddwch chi'n ei roi i mewn o'ch cronfa bensiwn, perfformiad y cronfeydd, pa ffynonellau eraill o arian sydd gennych chi, ac a ydych chi'n dymuno darparu ar gyfer dibynnydd neu rywun arall ar ôl i chi farw. Mae'n dibynnu hefyd am ba hyd y byddwch chi fyw ac nid oes llawer o bobl yn ystyried hyn yn ddigonol.

Gallai'ch incwm ymddeol leihau neu hyd yn oed redeg allan os cymerwch chi ormod o arian allan yn rhy fuan a dechrau gwagio'r arian y gwnaethoch ei fuddsoddi'n wreiddiol i gynhyrchu'r incwm – yn enwedig os bydd y farchnad stoc yn gostwng.

Mae dewis y buddsoddiad cywir yn allweddol – bydd angen i chi adolygu ble mae'ch arian wedi ei fuddsoddi'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i fodloni'ch anghenion ymddeoliad i'r hirdymor.

Cofiwch y gall buddsoddiadau ostwng yn ogystal â chodi – bydd angen i chi wybod sut fyddwch chi'n ymdopi os bydd eich incwm yn gostwng yn sydyn. Gall cynghorydd ariannol wedi ei reoleiddio roi cymorth i chi gynllunio ar gyfer hyn.

I ddarparu mwy o sicrwydd, gallwch ar unrhyw adeg ddefnyddio rhywfaint neu'r

cyfan o'ch cronfeydd incwm ymddeol i brynu incwm gwarantedig am gyfnod penodol neu am oes (blwydd-dal cyfnod penodol neu blwydd-dal oed). Bydd cynghorydd ariannol yn egluro hyn i chi.

Bydd eich darparwr yn codi tâl am reoli eich cronfa bensiwn fel hyn ac/neu pryd bynnag y byddwch angen taliad, neu am adolygiadau blyneddol neu ad hoc – gall hyn leihau maint eich buddsoddiadau a gallai eich arian ddarfod. Mae ffioedd a thaliadau yn amrywio, felly mae hynny'n rheswm arall pam ei bod yn bwysig cymharu cynnyrch. Holwch am ffioedd o flaen llaw bob tro.

Nid yw pob cynllun a darparwr pensiwn yn cynnig tynnu arian i lawr yn hyblyg – os nad yw eich un chi, gallwch drosglwyddo eich cronfa bensiwn i ddarparwr arall sydd, ond eto gall fod ffi i wneud hyn.

Bydd gwahanol ddarparwyr yn cynnig gwahanol nodweddion a strwythurau codi tâl ar eu cynnyrch – ac mae'r dewis yn debygol o gynyddu. Felly hyd yn oed os yw'ch cynllun neu'ch darparwr chi yn cynnig yr opsiwn hwn, mae'n beth doeth parhau i chwilio am y fargen orau a cheisio cyngor. Os oes gennych unrhyw amheuan am beth i'w wneud, cymerwch gyngor ariannol rheoledig. Bydd yn rhaid i chi dalu am y cyngor, ond gallai arbed arian i chi yn yr hirdymor.

➔ Gallwch ddefnyddio ein hoffer yn ar-lein ar moneyadvice.service.org.uk/drawdown-tool i gael gwybod pa ddarparwyr eraill sy'n cynnig tynnu i lawr yn hyblyg, ond ar hyn o bryd ni allwch gymharu cynnyrch yn ddefnyddio'r offer yn hwn. Dyma pam ein bod yn argymhell cael cyngor ariannol wedi ei reoleiddio. Mae cymharu'r cynnyrch yma yn gymhleth. Gweler tudalen 30 am wybodaeth am chwilio am y cynnig gorau.

PWYSIG:

Hyd yn oed os ydych chi ddim ond eisiau cael mynediad at eich arian yn ddi-dreth am y tro, byddwch yn dal angen gwneud penderfyniad am beth i'w wneud gyda'r 75% arall o'ch cronfa bensiwn. Os na fyddwch, yna mae'n debygol y bydd yn ddiofyn yn mynd i gynnyrch tynnu arian i lawr yn hyblyg eich darparwr. Efallai mai cynnyrch eich darparwr presennol fydd yr un gorau i chi, ond ni fyddwch yn gwybod oni bai eich bod wedi ei gymharu â chynnyrch eraill ar y farchnad. Er enghraifft, efallai y bydd yna gynnyrch eraill sydd â thaliadau is, ond mwy o ddewis o fuddsoddiad, neu nodweddion mwy hyblyg. I'ch helpu i gael y cynnig gorau, rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn defnyddio cynghorydd ariannol. Gall cynghorydd chwilio'r farchnad am y cynnyrch gorau i chi a'ch helpu i benderfynu ar eich dewis o gronfeydd buddsoddi. Os nad ydych yn cael cyngor ac yn canfod eich hun gyda chynnyrch anaddas, mae'n annhebygol y gallwch wneud cwyn. Am ragor o help ar sut i ddod o hyd i gynghorydd ariannol wedi ei reoleiddio, gweler tudalen 30.

Treth a dalwch

Byddwch yn talu treth ar unrhyw arian a gymerwch tu allan i'r lwfans arian di-dreth. Bydd faint o dreth a dalwch yn dibynnu ar gyfanswm eich incwm a'r gyfradd (neu gyfraddau) o Dreth Incwm sy'n berthnasol i chi. Gweler tudalennau 40 a 42 i gael enghreifftiau o sut mae incwm pensiwn yn cael ei drethu yn ddibynnol ar os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban.

Bydd eich darparwr yn tynnu treth o'ch taliadau incwm o flaen llaw dan TWE (Talu wrth Ennill). Oherwydd na fydd yn gwybod faint yw eich incwm cyffredinol, bydd yn defnyddio cod treth brys i ddechrau, sy'n golygu y gallech dalu gormod o dreth yn gychwynnol a gorfod hawlio'r arian yn ôl – neu efallai na fyddwch wedi talu digon o dreth os bydd gennych chi ffynonellau eraill o incwm.

Os yw cyfanswm gwerth eich holl gynilion pensiwn yn uwch na £1,030,000 (blwyddyn dreth 2018-19), a heb eu hasesu eisoes yn erbyn y Lwfans Oes, gallai taliadau treth pellach fod yn daladwy pan ddefnyddiwch yr arian yn eich cronfa bensiwn. Gweler *Lwfans Oes* ar dudalen 37.

Gostyngiad treth ar gynilion pensiwn

Unwaith y byddwch wedi dechrau cymryd unrhyw arian o'ch cynnyrch incwm ymddeol hyblyg, bydd y cynilion uchaf o bensiwn cyfraniad a ddiffinnir i'r dyfodol y gallwch chi eu casglu mewn blwyddyn sy'n gymwys i gael eu heithrio rhag treth fel arfer wedi eu cyfyngu i'r lefel isaf sef £4,000 (Gweler *Lwfans Blynnyddol Prynu Arian*, tudalen 38) neu 100% o'ch enillion. Os dymunwch barhau i ychwanegu at eich cronfa bensiwn gall hyn ddylanwadu ar ba bryd y dechreuwch gymryd incwm ymddeol hyblyg.

Ni effeithir ar y gostyngiad treth a gewch ar gynilion pensiwn i'r dyfodol os cymerwch gyfandaliad di-dreth ond dim incwm.

Budd-daliadau'r wladwriaeth

Gallai'r incwm a gewch – ac mewn rhai achosion gwerth eich cronfeydd incwm ymddeol hyblyg sy'n weddill ac unrhyw arian sydd heb ei gyffwrdd o'ch cronfa bensiwn – effeithio ar eich hawl i gael budd-daliadau'r wladwriaeth yn awr neu pan fyddwch yn hŷn. I ddysgu sut all incwm neu gynilion effeithio ar fudd-daliadau'r Wladwriaeth ewch i **GOV.UK**.

Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn marw

Pan fyddwch chi'n marw, bydd unrhyw gronfeydd incwm ymddeol hyblyg heb eu defnyddio'n cael eu heithrio o'ch ystâd er dibenion Treth Etifeddiant fel arfer. Gosodir y rheolau Treth Incwm i fuddiolwyr isod.

Os byddwch yn marw cyn eich bod yn 75 oed:

- bydd unrhyw ran heb ei gyffwrdd o'ch cronfa bensiwn yn trosglwyddo yn ddi-dreth i'ch buddiolwr a enwebwyd, cyn belled ag y telir yr arian cyn pen dwy flynedd ers i'r darparwr gael gwybod am eich marwolaeth. Os yw'n cael ei dalu wedi'r terfyn dwy flynedd, ychwanegir yr arian at incwm arall y buddiolwr a'i drethu ar y gyfradd briodol.

Os byddwch yn marw yn 75 oed neu hŷn:

- bydd unrhyw beth sy'n weddill yn eich cronfa y byddwch yn pasio ymlaen – un ai fel cyfandaliad neu incwm – yn cael ei drethu ar gyfradd Dreth Incwm briodol y buddiolwr. Gweler tudalennau 41 a 43 am enghraifft o sut mae incwm pensiwn yn cael ei drethu.

Cymryd eich cronfa bensiwn fel nifer o gyfandaliadau

Gallwch adael eich arian yn eich cronfa bensiwn a chymryd cyfandaliadau ohono pan fyddwch chi angen, nes bydd eich arian yn darhod neu y byddwch yn dewis opsiwn arall.

Sut mae'n gweithio

Fe gymerwch arian o'ch cronfa bensiwn fel y mynnwch a gadael y gweddill wedi ei fuddsoddi ac i barhau i gynyddu'n ddi-dreth.

Bob tro y byddwch yn tynnu arian fel arfer, bydd y 25% (chwarter) cyntaf yn ddi-dreth a'r gweddill yn drethadwy. Gweler Treth fyddwch chi'n ei thalu ar dudalen 22.

Efallai y codir ffioedd bob tro y tynnwch arian allan a/neu gyfyngiad ar sawl gwaith gewch chi dynnu arian allan bob blwyddyn.

Yn wahanol i opsiwn incwm ymddeol hyblyg - gweler tudalen 18 - ni ail-fuddsoddir eich cronfa yn awtomatig mewn cronfeydd newydd a ddewiswyd yn benodol i dalu incwm rheolaidd i chi, ond gallwch newid eich dewis o fuddsoddiad os dymunwch. Mae'n syniad da i adolygu eich dewisiadau buddsoddi yn rheolaidd i sicrhau bod y cronfeydd sy'n weddill yn cyd-fynd â faint o risg ydych chi eisiau cymryd am beidio perfformio.

Pethau i'w hystyried

Ni fydd yr opsiwn hwn yn rhoi incwm rheolaidd i chi, nag i unrhyw ddibynnydd wedi i chi farw.

Bydd eich cronfa bensiwn yn lleihau bob tro y tynnir arian allan ohoni. Po gynharaf y dechreuwch gymryd arian allan po uchaf fydd y risg y bydd eich arian yn rhedeg allan – neu ni fydd yr hyn sy'n weddill yn cynyddu'n ddigonol i gynhyrchu'r incwm fydd ei angen arnoch i bara yn eich blynnyddoedd oeddrannus. Cofiwch – rhaid

i'ch cronfa bensiwn ariannu nid yn unig eich anghenion ar y pryd ond eich treuliau i'r dyfodol yn ogystal.

Gallai'r ffioedd gweinyddu ar gyfer pob tro y tynnir arian allan leihau'r swm sy'n weddill yn eich cronfa – gwiriwch faint yw'r ffioedd hyn.

Gall gwerth buddsoddiadau'r cronfa ostwng mewn gwerth – gan ychwanegu ymhellach at y perygl o redeg allan o arian. Mae'n neilltuo o bwysig felly ei hadolygu'n rheolaidd – a gall olygu y bydd angen i chi symud neu ail-fuddsoddi'ch cronfa yn ddiweddarach. Mae hynny'n debygol o olygu costau.

Bydd yr arian a adewch yn eich cronfa bensiwn yn parhau i gael ei fuddsoddi. Wedi i chi ei dynnu allan, bydd yn cael ei ychwanegu i'ch incwm arall (Pensiwn y Wladwriaeth, budd, cyflog ac ati) a'i drethu. Os ydych chi'n lledaenu'r arian a gymerwch dros nifer o flynyddoedd treth, gallwch leihau eich bil treth. Gweler mwy dan *Treth a dalwch* ar dudalen 22 a'r enghreifftiau o sut mae incwm pensiwn yn cael ei drethu ar dudalennau 41 a 43.

Os ydych chi'n bwriadu tynnu arian o'ch pensiwn i dalu eich dyledion, gwiriwch y dewisiadau amgen yn gyntaf. Efallai bod ffyrdd gwell i dalu dyled na defnyddio eich cynilion pensiwn.

➔ I gael gwybod ymhle i gael cyngor am ddim ar ddyledion defnyddiwch ein Hofferyn canfod cyngor ar ddyledion yn moneyadvice.service.org.uk/debt

Nid yw pob darparwr neu gynllun pensiwn yn cynnig y gallu i dynnu arian o'ch cronfa bensiwn fel nifer o gyfandaliadau.

Chwiliwch am y fargen orau os hoffech yr opsiwn hwn ond ni allwch ei gael gyda'ch darparwr presennol, oherwydd bydd ffioedd a chyfyngiadau'n amrywio. Rydym hefyd yn argymhell yn gryf eich bod yn cael cyngor ariannol. Dysgwch sut i chwilio am y fargen orau ar dudalen 30.

Efallai na fyddwch yn gallu defnyddio'r opsiwn yma os oes gennych chi ddiogelwch penodol sy'n berthnasol i Lwfans Oes.

- ➔ Gallwch gael gwybod mwy am y diogelwch hwn yn moneyadvice.service.org.uk/lifetime-allowance

Mae'n beth doeth siarad â rhywun sydd ynghlwm â'ch cynllun os oes gennych chi un neu ragor o'r diogelwch hyn er mwyn canfod beth yw'ch opsiynau.

Treth a dalwch

Fel arfer, mae tri chwarter (75%) o bob swm o arian a dynnir yn cyfrif fel incwm trethadwy.

Gallai hyn gynyddu'ch cyfradd dreth wrth ei ychwanegu at eich incwm arall. Bydd faint o dreth a dalwch yn dibynnu ar gyfanswm eich incwm a'r gyfradd o Dreth Incwm sy'n berthnasol i chi. Gweler tudalennau 41 a 43 am enghraifft o sut mae incwm pensiwn yn cael ei drethu.

Bydd eich cynllun pensiwn neu ddarparwr yn talu'r arian a chymryd y dreth i ffwrdd ymlaen llaw – sef TWE (Talu wrth Ennill). Gan na fyddant yn gwybod faint yw eich incwm cyffredinol, byddant yn defnyddio cod treth brys i ddechrau. Golyga hyn y gallech dalu gormod o dreth a gorfod hawlio'r arian yn ôl – neu efallai na

Pwyntiau allweddol

- ➔ Ni fydd yr opsiwn hwn yn rhoi incwm ymddeol rheolaidd i chi, nag i unrhyw ddibynyddion wedi i chi farw.
- ➔ Gallai'r arian sydd yn eich cronfa bresennol ostwng yn ei werth.
- ➔ Mae tri chwarter (75%) o bob swm o arian a dynnir yn cyfrif fel incwm trethadwy – gallai cymryd symiau sylweddol o arian parod gynyddu'ch cyfradd dreth.

fyddwch wedi talu digon o dreth os bydd gennych chi ffynonellau eraill o incwm.

Os yw cyfanswm gwerth eich cynilion pensiwn yn uwch na Lwfans Oes o £1,030,000 (2018-19), a heb eu hasesu eisoes yn ei erbyn, gallai taliadau treth pellach fod yn daladwy pan ddefnyddiwyd yr arian o'ch cronfa bensiwn. Gweler *Lwfans Oes* ar dudalen 37.

Wedi i chi gyrraedd 75 oed, os bydd gennych chi lai o Lwfans Oes yn weddill na'r swm a ddymunwch ei dynnu allan, bydd y swm a gewch yn ddi-dreth wedi ei gyfyngu i 25% (chwarter) gweddill eich Lwfans Oes yn hytrach na 25% o'r swm a dynnwch allan.

Gweler *Lwfans Oes* ar dudalen 37 am ragor o wybodaeth.

Gostyngiad treth ar gynilion pensiwn

Unwaith y byddwch wedi cymryd cyfandaliad, mae'r uchafswm o gynilion pensiwn cyfraniad a ddiffinnir i'r dyfodol y gallwch chi eu casglu mewn blwyddyn sy'n gymwys i gael eu heithrio rhag treth fel arfer wedi eu cyfyngu i'r lefel isaf sef £4,000 (y Lwfans Blyneddol Prynu Arian – yn 2018-19) neu 100% o'ch enillion. Os ydych am barhau i gynilo i mewn i bensiwn yna efallai na fydd yr opsiwn hwn yn addas.

I gael gwybod mwy, gweler *Lwfans Blyneddol Prynu Arian* ar dudalen 38.

Budd-daliadau'r wladwriaeth

Gall cymryd cyfandaliadau mewn arian leihau eich hawl i gael budd-daliadau'r wladwriaeth yn awr neu wrth i chi fynd yn hŷn. I ddysgu sut all incwm neu gynilion effeithio ar fudd-daliadau'r wladwriaeth ewch i [GOV.UK](https://gov.uk).

Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn marw

Pan fyddwch chi'n marw, bydd unrhyw gronfeydd pensiwn heb eu defnyddio'n cael eu heithrio o'ch ystâd er dibenion Treth Etifeddiant fel arfer. Gosodir y rheolau Treth Incwm i fuddiolwyr ar y dde.

Os byddwch yn marw cyn eich bod yn 75 oed:

- bydd unrhyw ran heb ei gyffwrdd o'ch cronfa bensiwn yn trosglwyddo yn ddi-dreth i'ch buddiolwr a enwebwyd, cyn belled ag y telir yr arian cyn pen dwy flynedd ers i'r darparwr gael gwybod am eich marwolaeth. Os yw'n cael ei dalu wedi'r terfyn dwy flynedd, ychwanegir yr arian at incwm arall y buddiolwr a'i drethu ar y gyfradd briodol.

Os byddwch yn marw ar ôl 75 oed neu hŷn:

- bydd unrhyw ran o'ch cronfa bensiwn y trosglwyddwch ymlaen – un ai fel cyfandaliad neu fel incwm – yn cael ei ychwanegu at incwm cyffredinol y buddiolwr ac yn cael ei threthu ar y gyfradd Treth Incwm briodol. Gweler tudalennau 41 a 43 i gael enghreifftiau o sut mae incwm pensiwn yn cael ei drethu.

Taliadau Lwfans Oes:

- os yw cyfanswm gwerth eich holl gynilion pensiwn yn uwch na £1,030,000 (2018-19) pan fyddwch chi'n marw, gallai taliadau treth pellach fod yn daladwy. Gweler *Lwfans Oes* ar dudalen 37.

I gael gwybod ymhle i gael cyngor am ddim ar ddyledion defnyddiwyd ein Hofferyn canfod cyngor ar ddyledion yn moneyadvice.service.org.uk/debt

Cymryd eich cronfa bensiwn mewn un taliad

Nid yw'n ofynnol i chi mwyach orfod trosi'ch cronfa bensiwn yn incwm os nad ydych yn dymuno gwneud hynny. Gallwch gymryd eich holl gynilion pensiwn fel un swm os dymunwch.

Sut mae'n gweithio

Golyga hyn y byddwch yn cau'ch cronfa bensiwn a thynnu'r cyfan allan fel arian parod. Fel arfer, byddai'r 25% (chwarter) cyntaf yn ddi-dreth a'r gweddill yn drethadwy. Gweler *Treth fyddwch chi'n ei thalu* ar dudalen 25.

Pethau i'w hystyried

Ni fydd yr opsiwn hwn yn rhoi incwm rheolaidd i chi – nag i'ch priod, partner sifil neu unrhyw ddibynnydd arall wedi i chi farw. Ceisiwch gyngor gan Pension Wise ac ystyriwch gymryd cyngor ariannol cyn i chi ymrwymo.

Mae beth bynnag sydd dros ben wedi i chi gymryd eich arian di-dreth yn drethadwy, felly mae posibilrwydd cryf y byddai'ch cyfradd dreth yn codi wrth ychwanegu'r arian at eich incwm arall.

Os dewiswch yr opsiwn hwn ni allwch newid eich meddwl – felly rhaid i chi fod yn bendant bod hyn yn addas i chi. I nifer o bobl byddai'n fwy cost effeithiol o ran treth i fynd am un o'r dewisiadau eraill.

Os eich bwriad yw defnyddio'ch pensiwn i glirio dyledion, prynu gwyliau, neu brynu rhywbeth drud, meddyliwch yn ofalus cyn ymrwymo i'r opsiwn hwn. Bydd hynny'n lleihau'r arian y bydd gennych i fyw arno yn eich ymddeoliad, a gallech wynebu bil treth sylweddol.

Os cawsoch gyfran o bensiwn cyn briod neu cyn bartner sifil yn sgil ysgariad, efallai na allwch chi gymryd yr opsiwn hwn gyda'r gronfa bensiwn honno. Gwiriwch gyda'ch cynllun pensiwn neu'ch darparwr.

Efallai na fyddwch yn gallu defnyddio'r opsiwn yma os oes gennych chi ddiogelwch penodol sy'n berthnasol i Lwfans Oes.

➔ Gallwch gael gwybod mwy am y diogelwch hwn yn moneyadvice.service.org.uk/lifetime-allowance

Mae'n beth doeth siarad â rhywun sydd ynghlwm â'ch cynllun os oes gennych chi un neu ragor o'r diogelwch hyn er mwyn canfod beth yw'ch opsiynau.

Efallai y bydd ffioedd yn daladwy am dynnu'r holl arian o'ch cronfa. Gwiriwch gyda'ch cynllun pensiwn neu'ch darparwr.

Nid yw pob cynllun a darparwr pensiwn yn cynnig y dewis hwn, ac i gael mynediad at eich arian efallai y bydd angen i chi drosglwyddo i gynllun neu ddarparwr arall sydd yn gyntaf. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o arwain at daliadau ac efallai y byddwch yn ildio buddion gwerthfawr. Rydym yn awgrymu'n gryf eich bod yn siarad â Pension Wise a chael cyngor ariannol cyn ystyried hyn.

Awgrym da ar dreth

Gall defnyddio'ch cronfa gyfan fel arian olygu bil treth sylweddol – i'r rhan fwyaf o bobl byddai'n fwy cost effeithiol o ran treth i fynd am un o'n dewisiadau eraill. Ceisiwch arweiniad neu gyngor cyn i chi ymrwymo.

Treth a dalwch

Fel arfer, byddai'r 25% (chwarter) cyntaf yn ddi-dreth a threthir y gweddill fel incwm trethadwy. (Er dylid nodi y gallai rhai polisïau hŷn eich galluogi i gymryd swm uwch yn ddi-dreth – gwiriwch gyda darparwr eich polisi.) Bydd faint o dreth a dalwch yn dibynnu ar gyfanswm eich incwm a'r gyfradd o Dreth Incwm sy'n berthnasol i chi.

Mae yna risg uchel y bydd eich cyfradd treth yn cynyddu gyda'r opsiwn yma gan y bydd cyfanswm eich incwm cyfan ar gyfer y flwyddyn yn cynyddu.

Bydd eich cynllun pensiwn neu ddarparwr yn talu'r arian a chymryd y dreth i ffwrdd ymlaen llaw – sef TWE (Talu wrth Ennill). Gan na fyddant yn gwybod faint yw eich incwm cyffredinol, byddant yn defnyddio cod treth brys i wneud hyn. Golyga hyn y gallech dalu gormod o dreth a gorfod hawlio'r arian yn ôl – neu efallai na fyddwch wedi talu digon o dreth os bydd gennych chi ffynonellau eraill o incwm.

Os yw cyfanswm gwerth eich holl gynilion pensiwn yn uwch na Lwfans Oes o £1,030,000 (2018-19), a heb eu hasesu eisoes yn erbyn y Lwfans Oes, gallai taliadau treth pellach fod yn daladwy pan ddefnyddiwyd yr arian yn eich cronfa bensiwn. Gweler Lwfans Oes ar dudalen 37.

Wedi i chi gyrraedd 75 oed, os bydd gennych chi lai o Lwfans Oes yn weddill na'r swm y dymunwch ei dynnu allan, bydd y swm a dderbyniwyd yn ddi-dreth wedi ei gyfyngu i 25% (chwarter) gweddill eich Lwfans Oes yn hytrach na 25% o'r swm a dynnwch allan.

Gweler tudalen 37 i gael gwybod am y *Lwfans Oes*.

Gostyngiad treth ar gynilion pensiwn

Unwaith y byddwch wedi cyfnewid eich cronfa bensiwn am arian parod, mae'r uchafswm o gynilion pensiwn cyfraniad a ddifffinnir i'r dyfodol y gallwch chi eu casglu mewn blwyddyn sy'n gymwys i gael eu heithrio rhag treth wedi eu cyfyngu i'r lefel isaf sef £4,000 (y Lwfans Blynnyddol Prynu Arian) neu 100% o'ch enillion.

Gweler *Lwfans Blynnyddol Prynu Arian* ar dudalen 38.

Fodd bynnag, yr eithriad i'r rheol hon yw y gall unrhyw gronfa pensiwn buddion diffiniedig llai na £10,000 a/neu uchafswm o dair cronfa bensiwn bersonol llai na £10,000 gael eu cymryd fel arian parod heb effeithio ar y Lwfans Blynnyddol.

Budd-daliadau'r wladwriaeth

Gallai cymryd swm mawr o arian parod leihau'r gobaith sydd gennych o fedru hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth yn awr neu wrth i chi fynd yn hŷn – er enghraifft i'ch helpu gyda'ch gofal hirdymor. I ddysgu sut all incwm neu gynilion effeithio ar fudd-daliadau'r wladwriaeth ewch i [GOV.UK](https://gov.uk).

Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn marw

Pa bynnag oed fyddwch chi pan fyddwch chi farw, bydd unrhyw arian neu fuddsoddiadau sy'n weddill a brynwyd gydag arian a gymerwyd o'ch cronfa bensiwn, yn cyfrif fel rhan o'ch ystâd ar gyfer Treth Etifeddiaeth. Fodd bynnag, ni fyddai unrhyw ran o'ch cronfa na wariwyd yn atebol fel arfer.

Cymysgwch eich opsiynau

Nid yw'n ofynnol i chi ddewis un opsiwn - gallech ddewis yr hwn a'r llall fel y mynnwch dros gyfnod o amser neu dros gyfanswm eich cronfa bensiwn, beth bynnag sy'n gweddu i chi. Gallwch hefyd barhau i gynilo i mewn i bensiwn os dymunwch hynny, a chael gostyngiad treth hyd at 75 oed.

Sut mae'n gweithio

Bydd pa opsiwn neu gyfuniad sy'n iawn i chi yn dibynnu ar:

- pa bryd y byddwch yn gorffen gweithio neu yn lleihau'ch oriau
- eich amcanion o ran incwm a'ch agwedd tuag at risg
- eich oed a chyflwr eich iechyd
- maint eich cronfa bensiwn a chynilion eraill
- unrhyw bensiwn neu gynilion eraill sydd gan eich priod neu'ch partner, os yw hynny'n berthnasol
- yr effaith bosibl ar eich hawl i gael budd-daliadau'r Wladwriaeth
- a oes gennych chi ddibynyddion ariannol
- a yw'ch amgylchiadau'n debygol o newid yn y dyfodol.

Cewch eich tywys drwy'r holl opsiynau yn ystod eich apwyntiad Pension Wise. Gweler tudalen 6.

Dyrannu cronfeydd wrth gymysgu opsiynau

Wrth gymysgu opsiynau efallai y gallech:

- ddefnyddio gwahanol rannau o un gronfa ar gyfer mwy nag un opsiwn
- defnyddio cronfeydd ar wahân ar gyfer opsiynau unigol
- cyfuno cronfeydd llai cyn dewis un opsiwn neilltuol.

Ni fydd pob darparwr yn gadael i chi ddefnyddio eich cronfa ar gyfer mwy nag un opsiwn – efallai y bydd angen i chi drosglwyddo i ddarparwr arall er mwyn gwneud hyn.

Os oes gennych chi nifer o gronfeydd awgrymwn i chi gael cyngor ariannol ynglŷn â sut fyddai orau i'w defnyddio. Gall cynghorydd ddweud wrthydd chi hefyd dan ba amgylchiadau y dylid cyfuno cronfeydd. Gweler tudalen 30 am wybodaeth ar gael cyngor ariannol.

Enghreifftiau

Os oes gennych chi un gronfa, gallech gymryd 25% (chwarter) eich pensiwn yn ddi-dreth, defnyddio 50% (hanner) i brynu incwm a warantir am oes, a gadael y 25% sy'n weddill yn eich cronfa bensiwn i'w ddefnyddio ar sail hyblyg.

Os oes gennych chi fwy nag un cronfa, gallech brynu incwm a warantir am oes gydag un a derbyn incwm ymddeol hyblyg o un arall.

Cyfandaliadau di-dreth wrth gymysgu opsiynau

Sylwch, yn ddibynnol ar sut y defnyddiwch eich arian o'ch cronfa bensiwn efallai mai un cyfle a gewch i gymryd eich swm yn ddi-dreth.

Er enghraifft, os byddwch chi'n trosglwyddo eich pensiwn cyfan i gynllun tynnu arian i lawr yn hyblyg a pheidio cymryd unrhyw arian di-dreth ar yr adeg pan fyddwch yn trosglwyddo, ni allwch fynd yn ôl a chael mynediad at swm di-dreth yn ddiweddarach.

Fodd bynnag, os mai rhan o'ch cronfa yn unig a drosglwyddoch i gynllun tynnu arian i lawr yn hyblyg a gadael rhywfaint o'ch cronfa bensiwn wreiddiol heb ei chyffwrdd, gallech gymryd hyd at 25% o'r arian sy'n weddill fel arian parod di-dreth.

Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn marw

Mae'r un rheolau yn berthnasol ar gyfer pasio gweddi eich pensiwn ymlaen fel y sefydlwyd eisoes ar gyfer pob opsiwn.

Nid yw pob cynllun a phob darparwr pensiynau yn cynnig yr holl opsiynau – ond mae'r dewis gennych chi o hyd. Gweler tudalen 30 i weld sut i chwilio am y fargen orau.

Nodiadau ar gyfer y siart gyferbyn:

1. Yn berthnasol i'r swm o'ch cronfa bensïwn y dewiswch ddefnyddio i brynu'r cynnyrch hwn. Os byddwch yn defnyddio eich cronfa i gyd i brynu'r cynnyrch, ac yn peidio cymryd unrhyw arian di-dreth ar y pryd, ni allwch fynd yn ôl i'w gymryd yn ddiweddarach. Sylwer gyda rhai polisiâu hyn efallai y bydd cyfradd uwch o arian di-dreth ar gael.
2. Os ydych chi'n dewis yr opsiwn incwm ymddeol hyblyg, gallwch gymryd incwm pan fydd hynny'n gyfleus i chi, er bydd y rhan fwyaf o bobl yn ei ddefnyddio i gymryd incwm rheolaidd.
3. Ond gall rhai darparwyr gynnig cynnyrch incwm ymddeol hyblyg 'arbenigol' sydd yn gwarantu isafswm o incwm am oes hefyd.
4. Mae'r rhan nad ydych wedi ei dynnu allan yn parhau i gynyddu'n ddi-dreth a gellir ei ddefnyddio i brynu unrhyw gynnyrch incwm ymddeol.
5. Nid yw eich Lwfans Blyneddol o £40,000 (2018-19) wedi ei effeithio oni bai eich bod yn cymryd blwydd-dal oes a allai leihau (fel blwydd-dal cysylltiedig â buddsoddiad), pan fydd eich lwfans yn lleihau i £4,000 y flwyddyn – y Lwfans Blyneddol Prynu Arian.
6. Mae faint o ryddhad treth allwch chi ei gael wedi lleihau o £40,000 (y Lwfans Blyneddol yn 2018-19) i £4,000 – y Lwfans Blyneddol Prynu Arian.

Gweler tudalen 35 *Deall y Jargon* am ragor o wybodaeth ar y lwfansau uchod.

Cipolwg ar yr opsiynau

Cofiwch – gallwch gymysgu'r opsiynau hyn. Gofynnwch am hyn yn ystod eich apwyntiad am ddim gyda Pension Wise ac yna chwiliwch am y fargen orau neu ceisiwch gyngor ariannol.

	Cael incwm a warantir am oes (blwydd-dal)*	Cymryd Incwm Ymddeol Hyblyg	Cymryd nifer o gyfandaliadau	Cymryd y gronfa gyfan mewn un taliad
Faint o arian di-dreth allaf ei gael?	Fel arfer hyd at 25% o'r gronfa ¹	Fel arfer hyd at 25% o'r gronfa ¹	Fel arfer 25% o bob tro y tynnir arian allan	Fel arfer 25% o'r gronfa
Incwm rheolaidd?	Oes	Oes ²	Nac oes	Nac oes
Incwm a warantir am oes?	Oes	Nac oes ³	Nac oes	Nac oes
A oes angen i mi adolygu fy nghronfa bensïwn yn rheolaidd?	Nac oes	Oes	Oes	AMH
A allai fy arian redeg allan yn ddiweddarach yn fy ymddeoliad?	Na		Gallai	
Yn talu incwm uwch ar gyfer cyflyrau meddygol?	Ydi	Nac ydi	AMH	AMH
A allaf newid fy meddwl a defnyddio fy nghronfa mewn ffordd wahanol?	Na		Gallwch ⁴	Na
A fydd fy nghyfradd dreth yn codi pan dynnaf arian o fy nghronfa?	Yn dibynnu ar lefel yr incwm a delir ac incwm arall	Yn dibynnu ar lefel yr incwm a gymerir ac incwm arall	Yn dibynnu ar faint o arian a dynnwch allan bob tro ac incwm arall	Tebygol iawn
A yw'r gostyngiad treth ar fy nghynilion pensiwn yn cael ei effeithio?	Nac ydy ⁵	Ydy – unwaith y byddwch yn dechrau casglu incwm ⁶	Ydy ⁶	Ydy ⁶

*Os byddwch yn dewis incwm gwarantedig am gyfnod penodol, bydd incwm wedi ei warantu ar gyfer y cyfnod yn unig, nid am oes.

Chwilio am y fargen orau a chael cyngor

Wedi'ch apwyntiad Pension Wise mae'n hanfodol eich bod yn chwilio am y fargen orau – peidiwch â bodloni ar eich cynllun pensiwn eich hun neu gynnyrch eich darparwr.

Dilynwch y camau isod i hysbysu eich hun am beth sydd ar gael gan eich darparwr eich hun a'r farchnad ehangach. Wedi i chi wneud hyn, rydym yn argymhell cael cyngor ariannol.

Os yw'r syniad o chwilio o gwmpas yn teimlo'n rhy frawychus, dylech gael cyngor o'r cychwyn – gweler Cam 3, tudalen 31. Mae cymharu cynnyrch yn gymhleth ac mae'n allweddol eich bod yn gwneud y dewis iawn.

Sut i gymharu gwahanol opsiynau

Cam 1 – Gwiriwch beth all eich cynllun neu'ch darparwr cyfredol ei gynnig

- Gofynnwch i'r cynllun neu'r darparwr beth allant ei gynnig i chi a gofynnwch am ddyfynbrisiau ar gyfer yr holl opsiynau sydd o ddiddordeb i chi i'w defnyddio fel sylfaen i gymharu. (*Sylwer os byddwch yn gofyn am ddyfynbris am incwm gwarantedig am oes (blwydd-dal oes) rhaid i'ch darparwr hefyd gynnig dyfynbris cyfatebol i chi o'r farchnad agored ar gyfer cymhariaeth gychwynnol.*)

Wedi chwilio o gwmpas – a hyd yn oes os ydych chi'n ystyried gohirio cymryd eich pensiwn – rydym yn argymhell eich bod yn cael cyngor ariannol. Gweler tudalen 31.

- Edrychwch i weld a ydynt yn cynnig cyfradd blwydd-dal gwarantedig. Os gallant wneud hynny, mae'n debygol y bydd hi'n anodd curo'r gyfradd yn rhywle arall os mai incwm gwarantedig am oes sydd o ddiddordeb i chi – ond cofiwch chwilio am y fargen orau serch hynny.
- Gwiriwch a oes yna unrhyw warantau eraill a gollir, neu amodau neu gostau a fydd yn weithredol os symudwch at ddarparwr arall.
- Os ydych yn dymuno prynu incwm gwarantedig am oes (neu am gyfnod penodol) yna atebwch bob cwestiwn meddygol a ffordd o fyw yn llawn ac yn gywir, oherwydd gallai hyn gynyddu'r incwm rheolaidd a gewch yn sylweddol. (Gallwch gael copi o'r cwestiynau a ofynnir i chi yn **retirementhealthform.co.uk**).

Cam 2 – Cymharu'r dyfynbrisiau, nodweddion a ffioedd ar gyfer yr opsiynau sydd o ddiddordeb i chi

Cymharu dyfynbrisiau incwm gwarantedig (blwydd-daliadau)

(Ni fydd dyfynbris eich darparwr a'r dyfynbris y farchnad agored y bydd yn rhaid iddynt ei ddarparu yn rhoi darlun llawn i chi o beth allech chi ei gael. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn un neu ragor o'r camau canlynol.)

- Gallwch gymharu cynnyrch incwm gwarantedig (blwydd-daliadau) yn defnyddio tablau cymharu Blwydd-daliadau'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol  **moneyadvice.service.org.uk/annuities**.
- Defnyddiwch frocer blwydd-daliadau a fydd yn casglu dyfynbrisiau ar eich rhan. Ond, byddwch yn ofalus oherwydd nid yw'r mwyafrif yn cynnig cyngor neu'n dweud wrthyhch pa flwydd-dal sydd orau i chi. Chi sydd i benderfynu ac os byddwch yn dewis yr un anghywir, allwch chi ddim gwneud cwyn neu gael iawndal
- Cymerwch gyngor ariannol wedi'i reoleiddio. Bydd cynghorydd ariannol hefyd yn casglu dyfynbrisiau i chi, ond yn wahanol i frocer bydd yn argymhell y cynnyrch mwyaf addas sy'n bodloni eich anghenion ac amgylchiadau penodol. Dysgwch fwy yng Ngham 3.

Cymharu cynnyrch incwm ymddeol hyblyg

- Mae cynnyrch incwm ymddeol hyblyg yn gymhleth i'w cymharu eich hun gan fod y dewis yn eang a bydd beth sydd orau i chi yn dibynnu ar sawl ffactor.
- Fodd bynnag, gallwch weld cipolwg ar beth sydd ar gael ar hyn o bryd, a gweld rhestr o ddarparwyr sy'n cynnig y cynnyrch hwn, trwy ddefnyddio offeryn incwm ymddeol hyblyg y Gwasanaeth Cyngori Ariannol ar  **moneyadvice.service.org.uk/drawdown**

- Cofiwch nad yw'r rhestr cynnyrch a welwch yn hollgynhwysol ac rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn cael cyngor ariannol – gweler y cam nesaf – cyn i chi wneud unrhyw benderfyniad.

Cam 3 – Siaradwch â chynghorydd ariannol wedi ei reoleiddio

Mae cynllunio incwm ymddeol yn gymhleth ac mae'r opsiynau sydd gennych – yn cynnwys gohirio cymryd eich pensiwn – yn amrywio yn ddiabynnol ar eich amgylchiadau personol. Bydd y dewisiadau a wnewch yn effeithio ar eich incwm am weddill eich bywyd. Felly argymhellwn i chi siarad â chynghorydd ariannol wedi ei reoleiddio oni bai eich bod yn sicr eich bod yn deall pa opsiwn yw'r un cywir ar eich cyfer chi.

Mae cynnyrch cymhleth fel blwydd-daliadau sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau a chynnyrch incwm ymddeol hyblyg yn anodd eu cymharu eich hun a bydd cynghorydd yn trafod y manylion gyda chi ac yn argymhell os yw un o'r rhain neu gynnyrch incwm gwarantedig yn addas i chi. Felly hefyd, os ydych chi'n ystyried oedi cymryd eich pensiwn, bydd cynghorydd ariannol yn gallu cadarnhau os yw hyn yn ddewis synhwyrdd ac yn eich helpu i gynllunio ymlaen llaw.

Mae cynghorwyr ariannol yn bobl broffesiynol cymwys a fydd yn argymhell pa gamau sy'n addas ar eich cyfer chi ar ôl ystyried eich holl amgylchiadau ariannol a phersonol yn unig. Maent yn cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), ac mae'n rhaid iddynt ddilyn rheolau'r corff hwnnw. Os gwelwch yn y pen draw bod y cyngor a roddant i chi

Mae'r Lwfans Cyngor ar Bensiynau newydd yn cynnig manteision di-dreth i'ch helpu i dalu am gyngor ariannol. Gweler tudalen 32.

yn anaddas, gallwch wneud cwyn ac oes angen, fynd at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

Cyngor annibynnol neu gyfyngedig

Mae Cyngorwyr ariannol annibynnol yn edrych ar bob math o ddarparwyr a chynnyrch ariannol. Mae cyngorwyr ariannol sy'n cynnig 'cyngor cyfyngedig' yn arbenigo mewn mathau neilltuoledig o gynnyrch ac/neu yn cyfyngu ar faint o gynnyrch gan ddarparwyr a ystyrir ganddynt.

I gael y dewis gorau o gynnyrch incwm ymddeol, yn ddelfrydol dylech gael cyngorydd a all argymhell cynnyrch o'r farchnad gyfan yn ei faes.

Faint mae'n ei gostio?

Bydd cyngorydd ariannol yn codi ffi a fydd un ai'n ganran o'ch cronfa bensiwn, codi fesul awr, neu godi ffi sefydlog. Gallwch dalu ymlaen llaw, neu dynnu'r ffi o'r gronfa bensiwn ar ôl i unrhyw swm di-dreth gael ei dynnu yn gyntaf. Fel arfer mae'r cyngorydd yn cynnig y cyfarfod cychwynnol yn rhad ac am ddim. Bydd cyngorwyr bob amser yn rhoi dyfynbris i chi o gost eu gwasanaethau cyn i chi ymrwymo.

Y Lwfans Cyngor ar Bensiynau

I helpu talu am gyngor ariannol, cyflwynwyd Lwfans Cyngor ar Bensiynau newydd o Ebrill 2017 ar gyfer unrhyw un gyda phensiwn cyfraniadau diffiniedig. Mae'n eich galluogi i dynnu £500 yn ddi-dreth o'ch cronfa bensiwn hyd at dair gwaith (dim mwy nag unwaith mewn blwyddyn dreth), i helpu talu am gyngor gan reolydd ariannol wedi'i reoleiddio, naill ai wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar-lein.

Gallwch ddod o hyd i gyngorydd ariannol wedi ei reoleiddio yng Nghyfeirlyfr Cyngorwyr Ymddeoliad y Gwasanaeth Cyngori Ariannol

 moneyadvice.service.org.uk/directory.

Cael cymorth neu gyngor gan ddarparwyr cynnyrch

Gallwch siarad yn uniongyrchol â ddarparwr cynnyrch hefyd – ond byddwch yn siŵr o ofyn a yw'n cynnig cyngor ariannol ag argymhelliad neu ddim ond gwybodaeth.

Os yw'n cynnig gwybodaeth yn unig, rhaid i chi fod yn hyderus y bydd unrhyw gynnyrch incwm ymddeol yn addas ar eich cyfer chi a'i fod yn well nag unrhyw gynnyrch arall sydd ar gael. Ni fyddwch wedi'ch diogelu os gwelwch ymhen amser fod y cynnyrch yn anaddas.

Os ydych yn ansicr o gwbl gofynnwch am gyngor – efallai y gall y ddarparwr gynnig rhestr o gyngorwyr ariannol neu gynnig ei wasanaeth cyngori ei hun. Fodd bynnag, os bydd ef yn cynnig cyngor mae'n debygol y cyfyngir y cyngor hwnnw i sôn am ei gynnyrch ei hun.

Faint mae'n ei gostio?

Os defnyddiwch wasanaeth cyngorol y ddarparwr byddwch yn talu ffi yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod.

Os prynwch heb gyngor, bydd cost ei wasanaeth wedi ei gynnwys yn y dyfynbris a gewch ganddo – efallai na fydd hwn yn rhatach na cheisio cyngor ond mae'n anoddach i'w nodi. Gwnewch yn siŵr eich bod yn holi beth mae'r canolwr neu ddarparwr yn cael ei dalu am y gwasanaeth.

Awgrym da

Dewiswch gyngorydd ariannol a all argymhell cynnyrch gan y farchnad gyfan.

Sut i adnabod twyll pensiwn a buddsoddiad

Mae achosion o dwyll pensiwn a buddsoddiadau yn cynyddu yn y Deyrnas Unedig. Pob diwrnod mae twyllwyr yn defnyddio dulliau clyfar iawn o gael arian gan gynilwyr. Gwiriwch y ffeithiau cyn gwneud unrhyw benderfyniad – ac sy'n amhosib i'w ddadwneud, oherwydd gallwch golli cynilion oes mewn amrantiad.

Byddwch yn wiliadwrs yn enwedig os bydd rhywun yn cysylltu â chi ar hap neu o hysbysebion yn cynnig 'adolygiadau pensiwn am ddim', 'ymgyngoriadau heb rwyngedigaeth', elw rhy uchelgeisiol neu ffyrdd i osgoi talu treth.

Byddwch yn wiliadwrs hefyd o addewidion i gael mynediad at eich cronfa bensiwn cyn i chi fod yn 55 oed – a elwir weithiau yn 'ryddhau pensiwn' neu 'fenthyciadau pensiwn'. Dim ond mewn achosion prin iawn y gallwch wneud hynny yn gyfreithiol – er enghraifft os ydych chi mewn iechyd gwael – felly peidiwch â choelio'r bobl hyn. Nod y cwmnïau neu unigolion diegwyddor hyn yw i'ch perswadio i droi'ch cronfa bensiwn yn arian a rhoi'r arian hwnnw iddyn nhw i'w buddsoddi.

Gall rhai cwmnïau fod yn soffistigedig iawn gyda gwefannau argyhoeddiadol. Gall rhai awgrymu eu bod yn rhan o wasanaeth Pension Wise y llywodraeth neu'r Gwasanaeth Cyngori ar Bensiynau drwy roi'r enw 'pension' 'wise', neu 'guidance' yn eu henw. Bydd rhai hyd yn oed yn awgrymu eu bod o'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol.

Gall twyllwyr:

- geisio'ch perswadio i gymryd eich cronfa bensiwn gyfan fel arian parod – neu gyfandaliad mawr – a gadael iddyn nhw ei buddsoddi ar eich rhan, yn aml mewn buddsoddiadau heb eu rheoleiddio (sy'n golygu nad oes gennych unrhyw ddiogelwch os aiff pethau o chwith)
- addo arbedion treth ychwanegol a/neu enillion sylweddol iawn wrth buddsoddi dramor neu fuddsoddiadau newydd neu 'greadigol'
- ddweud y gallant roi cymorth i chi neu rywun arall gael mynediad at eich pensiwn cyn eich bod yn 55 oed, er enghraifft drwy drosglwyddo i gynllun pensiwn arall.

Unwaith y byddwch wedi trosglwyddo'ch pensiwn neu'ch cyfandaliad, gall fod yn rhy hwyr. Mae amryw o ddioddefwyr wedi colli'r cyfan o'u cynilion pensiwn yn sgil twyll. Hyd yn oed os na chollwch eich arian, efallai y byddwch yn wynebu bil treth mawr gan Gyllid a Thollau EM.

Ni fydd yr un o'r gwasanaethau a gefnogir gan y llywodraeth (Pension Wise, Gwasanaeth Cyngori ar Bensiynau neu'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol) fyth yn cysylltu â chi heb rybudd. Rhowch y ffôn i lawr os byddwch chi'n derbyn galwad annisgwyl a gwiriwch eich bod yn edrych ar y wefan gywir. Gweler Cysylltiadau ar dudalen 44.

Sut i nodi twyll

Yn ogystal â'r pwyntiau uchod, cadwch lygad am un neu ragor o'r nodweddion twyll canlynol:

- rhywun yn cysylltu â chi yn annisgwyl dros y ffôn neu trwy neges destun neu yn bersonol ar eich stepen drws
- pan nad ydych yn cael llawer o amser i wneud penderfyniad neu'n teimlo dan bwysau i wneud un ar unwaith
- yr unig fanylion cyswllt a gewch ganddynt yw ar eu gwefan neu rif ffôn symudol a chyfeiriad blwch post
- pan nad yw'r cwmni'n dymuno nac yn caniatáu i chi ei ffonio'n ôl
- am ragor o wybodaeth ar dwyll pensiwn ac i weld fideos gydag enghreifftiau go iawn o bobl sydd wedi colli eu harian, ewch i thepensionsregulator.gov.uk/pension-scams

Gwiriwch bob amser fanylion unrhyw un sy'n cysylltu â chi

Mae'r gyfraith yn gofyn i bob cwmni sy'n darparu cynnyrch neu gyngor ariannol wedi rheoleiddio gofrestru gyda'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FCA) i gyflawni busnes.

- Os oes gennych chi amheuan ynglŷn â chwmni sydd wedi cysylltu â chi, defnyddiwch gofrestr ar-lein yr FCA i wirio a yw cwmni wedi'i gofrestru yn fca.org.uk/register neu ffoniwch yr Awdurdod ar **0800 111 6768**.

Gwiriwch y ffeithiau cyn gwneud unrhyw benderfyniad sy'n amhosib i'w ddadwneud. Cofiwch gallwch golli'ch cynilion oes.

Os tybiwch eich bod yn cael eich targedu

- Peidiwch â chael eich brysio i wneud penderfyniad. Cyn i chi lofnodi unrhyw beth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori Pensiynau (TPAS) ar **0300 123 1047**.
- Gwnewch yn siŵr fod y cynghorydd wedi ei gofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) cyn i chi gytuno i unrhyw beth.
- Gwiriwch dudalennau gwefan Scamsmart yr FCA yn fca.org.uk/scamsmart – yno cewch enwau cwmnïau twyll gwybyddus a'ch galluogi i wirio a yw cwmni wedi ei gynnwys ar eu rhestr rybuddio.

Os ydych wedi derbyn cynnig neu wedi colli arian

- Os ydych eisoes wedi arwyddo rhywbeth yr ydych yn ansicr yn ei gylch, cysylltwch â'ch darparwr pensiwn ar unwaith. Efallai y byddant yn gallu atal trosglwyddiad nad yw wedi digwydd eto. Yna ffoniwch Action Fraud ar **0300 123 2040** i'w adrodd.

Awgrym Da



Bydd unrhyw gwmni sy'n honni ei fod yn rhan o wasanaeth Pension Wise y llywodraeth yn troseddu'n anghyfreithlon. Cysylltwch â Pension Wise drwy ei wefan pensionwise.gov.uk neu ffonio **0800 138 3944**.

Esbonio'r jargon

Incwm addasedig

Eich incwm blynyddol cyn treth plws gwerth eich cyfraniadau pensiwn chi a'ch cyflogwr.

Lwfans Blynyddol Amgen

Y terfyn ar faint o arian di-dreth y gallwch gronni mewn pensiwn Buddion Diffiniedig mewn unrhyw flwyddyn unwaith y byddwch wedi ysgogi'r Lwfans Blynyddol Prynu Arian. Mae'r Lwfans Blynyddol Amgen i'r rhan fwyaf o bobl yn £30,000 (yn ogystal ag unrhyw lwfansau na ddefnyddiwyd o'r tair blynedd flaenorol a ddygwyd ymlaen). Os oes gennych chi gynilion pensiwn Buddion Diffiniedig ac yn uwch na'r Lwfans Blynyddol Amgen (os yw'n berthnasol i chi) codir cost dreth sydd yn adennill unrhyw ostyngiad treth a roddwyd ar y cynilion pensiwn a oedd yn weddill. Os yw eich 'incwm addasedig' dros £150,000 mae'r Lwfans Blynyddol Amgen wedi ei leihau o £1 ar gyfer pob £2 y mae eich incwm yn rhagori dros £150,000, hyd at uchafswm gostyngiad o £30,000.

Gweler hefyd *Pensiynau Buddiant Diffiniedig* a *Lwfans Blynyddol Prynu Arian*.

Lwfans blynyddol

Y terfyn ar faint o arian di-dreth y gallwch gronni yn eich pensiwn mewn un flwyddyn yn seiliedig ar eich cyfraniadau chi a chyfraniadau'ch cyflogwr, ac unrhyw gyfraniadau a wneir ar eich rhan gan rywun arall. Yn ystod blwyddyn dreth 2018-19, y lwfans blynyddol yw £40,000 i'r mwyafrif.

Mae'r lwfans blynyddol yn berthnasol ar gyfer eich holl gynilion pensiwn, nid fesul cynllun. Os ewch dros y Lwfans Blynyddol, codir cost treth sydd yn adennill unrhyw ostyngiad treth a roddwyd ar y cychwyn.

Gweler hefyd *Lwfans Blynyddol Prynu Arian*, tudalen 38.

Os bydd eich enillion trethadwy yn y flwyddyn yn is na'r lwfans blynyddol yna bydd gostyngiad treth ar gyfraniadau pensiwn o'r holl ffynonellau yn cael ei gyfyngu i 100% o'ch enillion (neu i £3,600 os nad oes gennych chi enillion o gwbl).

Os yw eich 'incwm addasedig' yn uwch na £150,000 mae'r Lwfans Blynyddol yn cael ei leihau'n raddol, neu ei 'ohirio'. Gweler *Incwm Addasedig a Lwfans Blynyddol Gohiriedig*.

Blwydd-dal

Math o incwm ymddeoliad sy'n darparu incwm rheolaidd i chi – naill ai am oes neu gyfnod penodol. Gweler hefyd *Blwydd-dal oes*, *blwydd-dal cyfnod penodol* a *Blwydd-dal cysylltiedig â buddsoddiad*.

Pensiwn balans arian

Trefniant pensiwn pan fydd eich cyflogwr yn addo cronfa bensiwn i chi o swm penodol, pan gyrhaeddwch oed ymddeol. Yn arferol, cyfrifir y swm fel cyfran o'ch cyflog ar gyfer pob blwyddyn o'ch gwasanaeth.

Rydych yn gwybod beth fydd swm eich cronfa, ond nid oes addewid ynghylch y swm o bensiwn y cewch ei brynu (neu ei gymryd) ohoni.

Pensiwn Buddion wedi'u diffinio

Yn talu incwm ymddeoliad yn seiliedig ar eich cyflog terfynol ac ers pryd y buoch chi'n gweithio i'ch cyflogwr. Mae pensiynau â buddion wedi'u diffinio, yn cynnwys cynlluniau pensiwn 'cyflog terfynol' a 'chfartaledd gyrfa'. Yn gyffredinol mae ar gael gan gynlluniau

pensiwn gweithle hŷn neu sector cyhoeddus yn unig bellach.

Pensiynau Cyfraniadau wedi'u diffinio

Yn cronni cronfa i dalu incwm ymddeoliad i chi yn seiliedig ar gyfraniadau gennych chi ac/neu'ch cyflogwr. Rhoddir eich cronfa i mewn i amryw o wahanol fuddsoddiadau, gan gynnwys cyfranddaliadau. Mae'r cyfanswm sydd yn sefyll yn eich cronfa bensiwn wrth i chi ymddeol yn dibynnu ar faint a dalwyd i mewn, a pherfformiad y buddsoddiadau. Gelwir hefyd yn gynlluniau 'prynu arian'. Yn cynnwys pensiynau gweithle a phersonol, gan gynnwys pensiynau rhanddeiliaid. Gallai gael ei redeg trwy gwmni yswiriant neu ddarparwr ymddiriedolaeth meistr, neu trwy gynllun penodol a sefydlwyd gan eich cyflogwr.

Tynnu arian i lawr

Gweler 'Tynnu arian i lawr yn hyblyg'.

Blwydd-dal cyfnod penodol

Cynnyrch incwm ymddeol sy'n gwarantu incwm rheolaidd am gyfnod penodol – fel arfer 5 neu 10 mlynedd ond gall fod yn hirach – ac yn talu 'swm aeddfedu' ar y diwedd.

Cynghorydd ariannol

Gweler 'Cynghorydd ariannol wedi ei reoleiddio'.

Pensiwn cyflog terfynol

Gweler *Pensiwn buddion wedi'u diffinio*.

Tynnu arian i lawr yn hyblyg

Mae hyn yn eich caniatáu i ddefnyddio'ch cronfa bensiwn i roi incwm ymddeol rheolaidd i chi drwy ei ail-fuddsoddi mewn cronfeydd a ddylunnir ac a reolir yn bwrpasol ar gyfer hynny. Nid yw'r incwm wedi ei warantu am oes, ond mae gennych yr hyblygrwydd i wneud newidiadau i faint ydych chi eisiau ei gymryd neu i newid i gynnyrch incwm ymddeol mwy diogel yn ddiweddarach.

Wedi disodli tynnu arian i lawr yn hyblyg o fis Ebrill 2015, er gall defnyddwyr presennol tynnu arian i lawr a gapiwyd barhau yn y cynllun hwnnw.

Blwydd-dal sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau

Mae'n talu incwm ymddeol rheolaidd am oes a allai godi a gostwng yn unol â buddsoddiadau sylfaenol, ond ble mae isafswm taliad misol wedi ei warantu am oes. Mae hyn yn eich galluogi i ddewis a newid symiau taliadau misol, yn cynnwys dewis taliadau is yn hwyrach yn eich bywyd. Weithiau bydd hyn yn cael ei alw yn flwydd-dal amrywiol.

Cyfradd blwydd-dal a warantir (GAR)

Incwm gwarantiedig gwerthfawr sy'n aml yn cael ei gynnig gan eich cynllun neu ddarparwr pensiwn eich hun os byddwch yn cymryd blwydd-dal oes gyda nhw. Yn debygol o fod yn anodd eu curo os ydych yn chwilio am y fargen orau.

Tynnu arian i lawr a warantir

Cynnyrch hybrid sy'n cyfuno incwm a warantir am oes gyda nodweddion cynnyrch incwm ymddeol hyblyg.

Cynnyrch hybrid

Cynnyrch sy'n cyfuno nodweddion blwydd-daliadau a chynnyrch incwm ymddeol hyblyg i ddarparu incwm ymddeol.

Tynnu incwm i lawr

Term a ddefnyddir yn aml i ddisgrifio cymryd eich pensiwn fel incwm ymddeol hyblyg. Cyfeirir ato hefyd fel 'tynnu arian i lawr yn hyblyg' neu 'dynnu i lawr'.

Cyfraddau Treth Incwm

Rhennir Treth Incwm yn fandiau a thalwch gyfraddau gwahanol yn seiliedig ar y bandiau hyn. Yn 2018-19 mae'r bandiau yn 20%, 40% a 45% yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a 19%, 20%, 21%, 41% a 46% yn yr Alban. Ychwanegir eich incwm pensiwn i'r enillion eraill ac yna'i drethu'n unol â'r band (neu fandiau) treth priodol. Gweler tudalen 40 i ddeall rhagor am fandiau Treth Incwm ac i weld enghraifft ymarferol sy'n cynnwys incwm pensiwn.

Chwyddiant

Cynnydd yn lefel cyffredinol prisiau nwyddau a gwasanaethau.

Blwydd-daliad cysylltiedig â buddsoddiad

Cynnyrch incwm ymddeol sy'n gwarantu taliad am oes ond nid swm penodol – bydd taliadau yn codi a gostwng yn unol â gwerth y buddsoddiadau sylfaenol. Isafswm incwm misol y gellir ei warantu os yw perfformiad yn wan.

Lwfans Oes

Y cyfanswm y gallwch ei gynilo mewn pensiynau yn eich oes ac yn dal i gael gostyngiad yn y dreth. Os byddwch yn mynd dros y lwfans byddwch yn talu ffi ar y gormodedd pan fyddwch chi'n tynnu eich cynilion allan fel arian parod neu bensiwn. Ar gyfer blwyddyn dreth 2018-19 y Lwfans Oes yw £1,030,000.

Os ewch chi dros y lwfans fe dalwch dreth ar y swm gormodol (a elwir yn 'Gost Lwfans Oes') ar 55% os cymerwch y pensiwn fel cyfandaliad neu ar 25% os cymerwch y swm fel incwm. (Os cymerwch y swm fel incwm byddwch yn talu treth arno hefyd ar eich cyfradd Treth Incwm arferol). Ni asesir yr un cynilion ddwywaith. Felly os, er enghraifft, rhowch £2m o'ch cronfa bensiwn i mewn i gynnyrch incwm ymddeol hyblyg, bydd hwnnw wedi'i brofi a'r gweddill wedi'i drethu ar yr adeg honno ac nid oes unrhyw Lwfans Oes pellach yn ddyledus.

Os byddwch chi'n marw gan adael cynilion pensiwn heb eu cyffwrdd sy'n uwch na'r Lwfans Oes – ac nid ydynt wedi'u hasesu eisoes yn erbyn y lwfans – yna bydd eich buddiolwr a enwebwyd yn atebol am y costau treth ychwanegol ar y swm sy'n uwch na'r Lwfans Oes.

Mae hyn yn berthnasol os byddwch yn marw cyn neu wedi 75 oed. (Fel arfer bydd cronfeydd yn gallu pasio yn ddi-dreth i fuddiolwyr enwebedig os byddwch yn marw cyn eich bod yn 75 oed.)

Blwydd-dal oes

Cynnyrch incwm ymddeol sy'n gwarantu incwm ymddeol rheolaidd am weddill eich bywyd. Gall incwm barhau i fod yn sefydlog, fod yn gysylltiedig i chwyddiant neu godi'n raddol ar gyfraddau sefydlog, yn ddibynnol ar pa nodweddion a ddewiswch. Mae hyn yn cynnwys yr opsiwn i ddarparu ar gyfer cymar, partner sifil neu ddibynnydd am oes wedi i chi farw yn gyfnewid am incwm is.

Gostyngiad yng ngwerth y farchnad

Gostyngiad yn eich cronfa bensiwn allai fod yn berthnasol os yw eich cronfa bensiwn wedi ei buddsoddi mewn cronfa ar sail elw a'ch bod yn ei droi i arian cyn neu ar ôl ei ddyddiad aeddfedu neu ddyddiad(au) arall a nodir yn amodau a thelerau'r polisi.

Pensiwn pwrcasu arian

Gweler *Pensiwn Cyfraniadau Diffiniedig*.

Lwfans Blynnyddol Prynu Arian (MPAA)

Os dechreuwch gymryd arian allan o'ch pensiwn cyfraniad wedi'i ddiffinio, gall hyn sbarduno Lwfans Blynnyddol is o £4,000 (2018-19) a elwir yn Lwfans Blynnyddol Prynu Arian (MPAA). Golyga hyn y cewch fel arfer ostyngiad treth ar gyfraniadau pensiwn hyd at 100% o'ch enillion trethadwy yn unig neu £4,000, pa un bynnag yw'r isaf.

Yn fras, y prif sefyllfaoedd lle byddwch yn achosi'r MPAA i ddod yn berthnasol fydd:

- os cymerwch eich cronfa gyfan fel cyfandaliad neu ddechrau cymryd cyfandaliadau ar hap o'ch cronfa bensiwn
- os rhowch arian eich cronfa bensiwn i mewn i gronfa incwm lle gallwch dynnu incwm ohoni a dechreuwch wneud hynny

- os prynwch flwydd-dal hyblyg neu'n gysylltiedig â buddsoddiad lle gallai'ch incwm ostwng
- os oes gennych chi gynllun tynnu arian i lawr wedi'i gapio a ddechreuodd cyn Ebrill 2015 a dechrau cymryd taliadau sy'n uwch na'r cap

Ni fydd yr MPAA yn dod yn berthnasol fel arfer os:

- cymerwch gyfandaliad di-dreth a phrynu blwydd-dal oes sy'n rhoi incwm a warantir am oes (sydd un ai'n aros fel y mae neu'n cynyddu)
- cymerwch gyfandaliad arian parod di-dreth a rhoi eich cronfa bensiwn mewn cynnyrch tynnu incwm ond ni fyddwch yn cymryd unrhyw incwm ohono
- rydych yn tynnu arian parod allan o un gronfa bensiwn neu fwy sydd yn werth llai na £10,000. (Perthnasol yn y mwyafrif o achosion.)

Mae'r MPAA o £4,000 yn berthnasol yn unig i gyfraniadau i bensiynau â chyfraniadau wedi'u diffinio ac nid cynlluniau pensiwn buddion wedi'u diffinio.

Lwfans Cyngor ar Bensiynau

Yn eich galluogi i dynnu £500 hyd at dair gwaith o'ch cronfa/cronfeydd pensiwn cyfraniad diffiniedig, i fynd tuag at gost cyngor ar bensiynau neu ymddeol. Dim ond unwaith y gellir ei ddefnyddio o fewn blwyddyn dreth. Gellir ei ddefnyddio waeth beth yw eich oed yn erbyn cost cyngor ariannol wedi ei reoleiddio naill ai wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar-lein. Nid yw ar gael gyda chynlluniau buddion diffiniedig, ond gellir ei ddefnyddio os oes gennych bensiwn 'hybrid' sydd ag elfen cyfraniad diffiniedig.

Cynghorydd ariannol wedi'i reoleiddio

Gweithiwr cymwysedig proffesiynol sydd wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) ac y mae'n rhaid iddo ddilyn eu rheolau wrth roi cyngor ariannol. Bydd yn argymhell cynnyrch ariannol wedi ystyried eich amgylchiadau ariannol a phersonol cyffredinol yn unig. Os gwelwch yn y pen draw bod y cyngor a roddir i chi yn anaddas, gallwch wneud cwyn ac os oes angen fynd â'ch achos at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

Mae 'Cynghorwyr Ariannol Annibynnol' yn edrych ar bob math o ddarparwyr a chynnyrch ariannol. Mae cynghorwyr ariannol sy'n cynnig 'cyngor cyfyngedig' yn arbenigo mewn mathau neilltuoel o gynnyrch ac/neu yn cyfyngu ar faint o gynnyrch gan ddarparwyr a ystyrir ganddynt.

Pensiwn y Wladwriaeth

Taliad rheolaidd gan y llywodraeth yr ydych yn gymwys ar ei gyfer pan gyrhaeddwch oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn cynyddu i ddynion a menywod a bydd yn cyrraedd 66 erbyn 2020. Bydd yn codi unwaith eto i 67 erbyn 2028. Bydd y swm a gewch yn dibynnu ar eich cofnod Yswiriant Gwladol.

Lwfans Blynnyddol Gohiriedig

Mae'r Lwfans Blynnyddol o £40,000 (gweler yn gynharach) yn cael ei leihau, neu ei 'raddio' os yw eich 'incwm wedi'i addasu' (eich incwm blynnyddol cyn treth plws gwerth eich cyfraniadau chi ac unrhyw gyfraniadau pensiwn gan eich cyflogwr) dros £150,000. Yn yr achos hwn bydd y Lwfans Blynnyddol yn gostwng £1 am bob

£2 y bydd eich incwm yn uwch na £150,000, hyd at uchafswm o ostyngiad o £30,000. Yn ymarferol mae hyn yn gostwng y Lwfans Blynnyddol i £10,000 unwaith y bydd yr incwm a addaswyd yn cyrraedd £210,000. Os bydd eich incwm blynnyddol ar ôl treth ac eithrio cyfraniadau pensiwn yn llai na £110,000 yna ni fydd y gostyngiad graddedig yn berthnasol.

Bydd gohirio tebyg yn weithredol i'r Lwfans Blynnyddol Amgen os ydych mewn pensiwn â buddion wedi'u diffinio. Gweler *Lwfans Blynnyddol Amgen*.

Cyfandaliad di-dreth

Swm o arian parod a osodir gan y gyfraith y gallwch ei gymryd yn ddi-dreth wrth ymddeol.

Fel arfer mae'n swm hyd at chwarter (25%) o'ch pensiwn er gall rhai polisiâu ganiatáu i chi gymryd mwy - gwiriwch gyda darparwr eich polisi.

Weithiau cyfeirir ato'n syml fel 'arian parod di-dreth'.

Cronfa bensiwn heb ei chrisialu

Cronfa bensiwn nad yw wedi cael ei hagog ar gyfer incwm ymddeol.

Cyfandaliad cronfeydd pensiwn heb eu crisialu (UFPLS)

Swm o arian a gymerwyd o gronfa bensiwn nad yw wedi talu unrhyw incwm ymddeol allan. Cyfeirir ato yn y llyfryn hwn fel 'nifer o gyfandaliadau'. Ar gyfer bob tro y tynnir arian allan, bydd y 25% cyntaf (chwarter) yn ddi-dreth a threthir y gweddill ar eich cyfradd dreth briodol. Yn rhan o'r opsiwn arian parod ar gyfer tynnu'ch pensiwn.

Sut mae eich incwm pensiwn yn cael ei drethu

Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (gweler tudalen 42 ar gyfer yr Alban) Rhennir Treth Incwm yn ‘fandiau treth’ a thalwch gyfraddau gwahanol: 20%, 40% a 45% yn seiliedig ar y bandiau hynny. Mae’r effaith ymarferol ar gyfer y flwyddyn dreth 2018-19 i’w gweld yn y tabl isod.

Bandiau Treth Incwm 2018-19 – Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon		
Incwm trethadwy	Cyfradd treth ar gyfer y rhan fwyaf o bobl*	Gwerth ‘band treth’ **
Hyd at £11,850	0% (‘Lwfans Personol’)	AMH
Rhwng £11,850 a £46,350	20% (Cyfradd sylfaenol)	£34,500
Rhwng £46,350 a £150,000	40% (Cyfradd uwch)	£103,650
Uwchben £150,000	45% (Cyfradd ychwanegol)	Anghyfyngedig dros £150,000

*Pan fydd cyfanswm eich incwm dros £100,000, bydd eich Lwfans Personol yn gostwng £1 am bob £2 y bydd eich incwm uwchben £100,000. Golyga hyn y bydd eich lwfans yn sero os yw’ch incwm yn £123,000 neu ragor.
** Gwerth ‘band treth’ yw swm yr incwm rhwng un band treth a’r nesaf. Mae incwm sy’n syrthio i bob band wedi ei drethu ar y gyfradd dreth berthnasol ar gyfer y band hwnnw

Effaith incwm pensiwn ar eich band treth

Ychwanegir eich incwm pensiwn i’r enillion/incwm eraill ac yna’i drethu’n unol â’r band priodol.

Os yw hynny’n gwthio’r incwm cyffredinol i fand treth newydd efallai y bydd angen i chi dalu treth arno ar ddwy gyfradd, yn unol â’r enghraifft ar y dudalen gyferbyn.

Mae’r un egwyddorion yn berthnasol os yw treth yn daladwy gan eich buddiolwr (neu fuddiolwyr) ar incwm pensiwn a etifeddwyd neu gyfandaliadau wedi i chi farw. Efallai y bydd treth yn daladwy os byddwch yn marw yn 75 oed neu’n hŷn, neu os nad yw buddion yn cael eu talu o fewn dwy flynedd i’r darparwr yn dod yn ymwybodol o’ch marwolaeth.

Treth ar eich incwm pensiwn: Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon – enghraifft

Mae’r tabl isod yn dangos sut y gall incwm pensiwn eich gwthio i mewn i fand treth newydd wrth ei ychwanegu at eich enillion/incwm eraill. Mae’r enghraifft hon yn rhagdybio:

- enillion trethadwy ac/neu incwm arall o £32,000 (e.e. unrhyw gyflog a chynilion/buddsoddiadau/incwm rhent trethadwy)
- incwm pensiwn trethadwy o £15,000 (ar ôl i unrhyw swm di-dreth gael ei gymryd).

Enghraifft cyfanswm incwm trethadwy: Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (2018-19)			
Dadansoddiad incwm (£47,000)	Cyfradd dreth yn weithredol	Perthnasol i	Treth sy’n daladwy
£11,850 cyntaf	Amh (‘Lwfans Personol’)	Yr £11,850 cyntaf o’r incwm nad yw’n bensiwn	Dim treth
£34,500 nesaf*	20% (Cyfradd sylfaenol)	Yr £20,150 o’r enillion di-bensiwn sy’n weddill (£32,000 llai £11,850 = £20,150).	£4,030
		Y £14,350 cyntaf o’r incwm pensiwn £15,000 (£34,500 llai £20,150)	£2,870
£650 terfynol	40% (Cyfradd uwch)	Yr incwm pensiwn trethadwy sy’n weddill (£15,000 llai £14,350)	£260
Cyfanswm y dreth sy’n daladwy			£7,160*

* Gweler gwerth ‘Band Treth’ ar dudalen 40

Yr Alban

Rhennir Treth Incwm yn ‘fandiau treth’ a thalwch gyfraddau gwahanol: 19%, 20%, 21%, 41% a 46% yn seiliedig ar y bandiau hynny. Mae’r effaith ymarferol ar gyfer y flwyddyn dreth 2018-19 i’w gweld yn y tabl isod.

Bandiau Treth Incwm 2018-19 – Yr Alban		
Incwm trethadwy	Cyfradd treth ar gyfer y rhan fwyaf o bobl*	Gwerth ‘band treth’ **
Hyd at £11,850	0% (‘Lwfans Personol’)	AMH
Rhwng £11,850 a £13,850	19% (Cyfradd gychwynnol)	£2,000
Rhwng £13,850 a £24,000	20% (Cyfradd sylfaenol)	£10,150
Rhwng £24,000 a £43,430	21% (Cyfradd ganolradd)	£19,430
Rhwng £43,430 a £150,000	41% (Cyfradd uwch)	£106,570
Dros £150,000	46% (Cyfradd ychwanegol)	Anghyfyngedig dros £150,000

*Pan fydd cyfanswm eich incwm dros £100,000, bydd eich Lwfans Personol yn gostwng £1 am bob £2 y bydd eich incwm uwchben £100,000. Golyga hyn y bydd eich lwfans yn sero os yw’ch incwm yn £123,000 neu ragor
** Gwerth ‘band treth’ yw swm yr incwm rhwng un band treth a’r nesaf. Mae incwm sy’n syrthio i bob band wedi ei drethu ar y gyfradd dreth berthnasol ar gyfer y band hwnnw

Effaith incwm pensiwn ar eich band treth

Ychwanegir eich incwm pensiwn i’r enillion/incwm eraill ac yna’i drethu’n unol â’r band priodol.

Os yw hynny’n gwrthio’r incwm cyffredinol i fand treth newydd efallai y bydd angen i chi dalu treth arno ar ddwy gyfradd, yn unol â’r enghraifft ar y dudalen gyferbyn.

Mae’r un egwyddorion yn berthnasol os yw treth yn daladwy gan eich buddiolwr (neu fuddiolwyr) ar incwm pensiwn a etifeddiwyd neu gyfandaliadau wedi i chi farw. Efallai y bydd treth yn daladwy os byddwch yn marw yn 75 oed neu’n hŷn, neu os nad yw buddion yn cael eu talu o fewn dwy flynedd i’r darparwr yn dod yn ymwybodol o’ch marwolaeth.

Treth ar eich incwm pensiwn yr Alban – enghraifft

Mae’r tabl isod yn dangos sut y gall incwm pensiwn eich gwrthio i mewn i fand treth newydd wrth ei ychwanegu at eich enillion/incwm eraill. Mae’r enghraifft hon yn rhagdybio:

- enillion trethadwy ac/neu incwm arall o £32,000 (e.e. unrhyw gyflog a chynilion/ buddsoddiadau/incwm rhent trethadwy)
- incwm pensiwn trethadwy o £15,000 (ar ôl i unrhyw swm di-dreth gael ei gymryd)

Enghraifft cyfanswm incwm trethadwy: Yr Alban (2018-19) £47,000 (£32,000 + £15,000 incwm pensiwn)			
Dadansoddiad incwm (£47,000)	Cyfradd dreth yn weithredol	Perthnasol i	Treth sy’n daladwy
£11,850 cyntaf	Amh (‘Lwfans Personol’)	Rhan gyntaf yr incwm £32,000 di-bensiwn	Dim treth
£2,000 nesaf*	19% (Cyfradd gychwynnol)	Y rhan nesaf o’r incwm di-bensiwn	£380
£10,150 nesaf*	20% (Cyfradd sylfaenol)	Y rhan nesaf o’r incwm di-bensiwn	£2,030
£19,430 nesaf*	21% (Cyfradd ganolradd)	Yr £8,000 olaf o’r £32,000 o incwm di-bensiwn – wedi ei ddefnyddio. Y £11,430 cyntaf o’r £15,000 incwm pensiwn	£1,680 £2,400.30
£3,570 terfynol	41% (Cyfradd uwch)	Dyma’r incwm pensiwn trethadwy sy’n weddill (£15,000 llai £11,430)	£1,463.70
Cyfanswm y dreth sy’n daladwy			£7,954

* Gweler gwerth ‘Band Treth’ ar dudalen 42

Cysylltiadau defnyddiol

Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol

Mae'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn wasanaeth annibynnol, a gafodd ei sefydlu gan y llywodraeth i roi cymorth i bobl wneud y gorau o'u harian gan roi cyngor diduedd yn rhad ac am ddim am arian i bawb ledled y DU – ar-lein, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.

Rydym yn rhoi cyngor, awgrymiadau ac offer ar amrediad eang o bynciau gan gynnwys rheoli arian o ddydd i ddydd, cynilion, cynllunio eich ymddeoliad ac ar gyfer eich dyfodol, yn ogystal â chynghori a chymorth ar ddigwyddiadau sy'n newid bywyd megis cychwyn teulu neu golli eich swydd.

Am gyngor a mynediad at ein hoffer a'n cynllunwyr ewch i
moneyadviceservice.org.uk

Neu ffoniwch ein Llinell Cyngor Ariannol ar 0800 138 7777

Typetalk
1800 1 0800 915 4622

Cwynion ac iawndal

Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol

0800 023 4567 neu 0300 123 9123
financial-ombudsman.org.uk

Cynllun iawndal y Gwasanaethau Ariannol (FSCS)

0800 678 1100 neu 020 7741 4100
fscs.org.uk

Yr Ombwdsmon Pensiynau

Am gwynion am gynllun pensiwn gweithle neu pensiwn personol. Mae hefyd yn ystyried cwynion am benderfyniad a wnaethpwyd gan y Gronfa Diogelu Pensiynau neu'r Cynllun Cymorth Ariannol.
0800 917 4487
pensions-ombudsman.org.uk

Dod o hyd i gynghorydd ariannol

Cyfeirlyfr cynghorydd ymddeoliad

Awdurdodir a rheoleiddir yr holl gynghorwyr a restrir i ddarparu cyngor gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA).

➔ Defnyddiwch ein Cyfeirlyfr cynghorwyr ymddeoliad ar-lein ar
moneyadviceservice.org.uk/directory

Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)

I wirio'r Gofrestr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, neu i adrodd am hysbysebion ariannol camarweiniol neu hyrwyddiadau eraill.

Llinell gymorth defnyddwyr:
0800 111 6768
Typetalk: 1800 1 0800 111 6768
fca.org.uk/register

Gwybodaeth a chynghori am bensiynau

Am fanylion eich cynllun pensiwn y gweithle siaradwch â'ch gweinyddwr pensiynau, rheolwr pensiynau neu ymddiriedolwr pensiwn yn y gwaith.

Pension Wise

Gwasanaeth diduedd ac am ddim gan y llywodraeth sy'n rhoi cymorth i chi ddeall eich opsiynau pensiwn newydd.
0800 138 3944
pensionwise.gov.uk

Y Gwasanaeth Cyngori ar Bensiynau (The Pensions Advisory Service)

Am wybodaeth a chyfarwyddyd am ddim, annibynnol ar bob mater pensiwn.
0300 123 1047
pensionsadvisoryservice.org.uk

GOV.UK

Am wybodaeth ynglŷn â Phensiynau'r Wladwriaeth a sut i ddod o hyd i pensiwn coll.

Datganiadau Pensiwn y Wladwriaeth
0800 731 0175
gov.uk/check-state-pension

Hawlio Pensiwn y Wladwriaeth
0800 731 7898
gov.uk/state-pension

Gohirio Pensiwn y Wladwriaeth
0800 731 7898
gov.uk/deferring-state-pension

Y Gwasanaeth Orlhain Pensiwn
0800 731 0193
gov.uk/find-pension-contact-details

Angen rhagor o gymorth?

Dod o hyd i gynghorydd ariannol yn ein **Cyfeirlyfr cynghorydd ymddeoliad**

Mae ein cyfeirlyfr yn cynnwys manylion cynghorwyr rheoledig yn unig – felly bydd gennych dawelwch meddwl eich bod wedi'ch diogelu'n llawn. Dewiswch ddelio gyda'ch cynghorydd yn bersonol, ar y ffôn neu ar-lein.

Chi sydd i benderfynu.

Chwiliwch am eich cynghorydd ariannol ar
moneyadviceservice.org.uk/directory
neu ffoniwch 0800 138 7777





**Gwasanaeth
Cynggori Ariannol**

Mae Eich pensiwn: mae'n bryd dewis
yn un o'r canllawiau sydd ar gael gan y
Gwasanaeth Cynggori Ariannol. I weld
ein detholiad llawn o ganllawiau ac i ofyn
am gopïau, ewch i

 **moneyadvice.service.org.uk/freeguides**

Llinell Cyngor Ariannol **0800 138 7777***
Typetalk **1800 1 0800 915 4622**

Os hoffech gael y canllaw hwn
mewn Braille, print bras neu
fformat clywedol cysylltwch â ni
ar y rhifau uchod.

*Mae galwadau am ddim. Er mwyn ein helpu i gynnal a
gwella ein gwasanaeth, efallai y byddwn yn recordio neu
fonitro galwadau.

Gwybodaeth yn gywir pan gafodd ei hargraffu (Ebrill 2018).
Fe adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.

Ebrill 2018

© Y Gwasanaeth Cynggori Ariannol Ebrill 2018

Cyf: YPITTC_Apr2018_Edition1_Welsh